

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Ionawr 2013

Rhif 429

50c

Ysgol Dyffryn Ogwen ar y Brig!



Yn rhifyn mis Ionawr 2012 o'r Llais, mynegodd y golygyddion longyfarchiadau i Bennaeth, Staff a disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen ar eu gwaith caled, a'u hymroddiad wrth gynnal safonau uchel yr ysgol. Bryd hynny, dyfarnodd Y Cynulliad bod yr ysgol ar frig Band 2 yn y drefn bandio.

Eleni, rhaid ychwanegu at y llongyfarchiadau hynny, gan fod Ysgol Dyffryn Ogwen bellach wedi'i rhoi yn y Band 1af. Mae'r dystiolaeth wedi'i chasglu ar sail canlyniadau arholiadau allanol yr haf diwethaf, y gwaith sydd wedi'i wneud ar wella presenoldeb y disgyblion, yn ogystal â'r cynnydd cyffredinol yn safonau'r disgyblion.

Mae'n hyfrydwch felly cael cyhoeddi bod Ysgol Dyffryn Ogwen ymysg yr ysgolion gorau yng Nghymru, ac mae hynny'n sicr yn destun balchder i ni i gyd fel trigolion y Dyffryn.

NEUADD OGWEN

Cyfarfod Lansio

Llyfryn y Dr. J. Elwyn Hughes
RHAI O ENWOGION LLÊN
DYFFRYN OGWEN

**Nos Wener, 18 Ionawr
am 7 o'r gloch**

Neville Hughes

yn cyflwyno'r

Prifardd Ieuan Wyn

Dr. J. Elwyn Hughes

a rhaglen o eitemau

amrywiol ar lafar ac ar gân

yng nghwmni

Côr Meibion y Penrhyn,

Hogia'r Bonc, Boncathod

Dafydd Roberts, John Hywyn

Helen Wyn (Tammy Jones)

Wyn Bowen Harries,

Lowri Wynne Williams

Caren Brown a Lisa Jên

Arfon Gwilym a Sioned Webb



Arthur Wyn Rowlands

Panad a bisgedan i ddilyn

a chyfle i brynu'r llyfryn

Pris : £3.00

MYNEDIAD AM DDIM



Ar y chwith dyma dri o
enwogion llên Dyffryn
Ogwen. Fedrwc chi eu
henwi?

Atebion ar dudalen 2.
Colofn 3

**Blwyddyn
Newydd Dda
i'n holl
ddarllenwyr!**

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts
hylaw@btinternet.com

600965

Ieuan Wyn
cylch@tiscali.co.uk

600297

Lowri Roberts
l.roberts11@btinternet.com

600490

Dewi Llewelyn Siôn
dewision@btinternet.com

600274

Fiona Cadwaladr Owen
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

601592

Siân Esmor Rees
sian_esmor@btinternet.com

600427

Neville Hughes
nev_hughes@btinternet.com

600853

Dewi A Morgan
dewimorgan@fsmail.net

602440

Trystan Pritchard
trystanrp1@gmail.com

07402
373444

Walter W Williams
waltermenai@yahoo.co.uk

601167

SWYDDOGION

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd LL57 3DT 602440
dewimorgan@fsmail.net

Trefnydd Hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ 600872
godfreydnortham@hotmail.com

Y Llais Drwy'r Post:
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd Newydd

Mae'n dda gan y Panel Golygyddol groesawu aelod newydd, sef Trystan Pritchard, 27 Allt Pen-y-bryn, Bethesda.

Golygydd y Mis

Golygwyd y mis hwn gan Neville Hughes.

Golygydd mis Chwefror fydd Derfel Roberts, Llys Artro, 84 Ffordd Carneddi, Bethesda, LL57 3SG. 01248 600965 hylaw@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 30 Ionawr, os gwelwch yn dda. Plygu nos lau, 14 Chwefror yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Mis Ionawr

18 Noson Lansio llyfr “Rhai o Enwogion Llên Dyffryn Ogwen”. Neuadd Ogwen am 7.00

19 Bore Coffi. Mini Rygbi Bethesda. Neuadd Ogwen 10.00 – 12.00

23 Cyfarfod Blynyddol Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.

23 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.

25 Noson Dwynwen Plaid Cymru. Clwb Rygbi Bethesda am 7.30

26 Bore Coffi Cyfeillion Ysgol Abercaseg. Neuadd Ogwen 10.00 – 12.00

29 Plaid Cymru - Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00

31 Merched y Wawr Bethesda. Brethyn Cartref. Cefnfaes am 7.00

Mis Chwefror

02 Bore Coffi SANDS. Neuadd Ogwen . 10.00 – 12.00

04 Merched y Wawr Tregarth. John Gruffydd Jones. Shiloh am 7.00

06 Cymdeithas Lenyddol Gofalaeth Bro Dyffryn Ogwen. Ffestri Carmel Llanllechid am 7.00

09 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00

09 Marchnad Cynnyrch Lleol. Ystafell Fawr Capel Jerusalem Bethesda. 10.00 – 2.00

11 Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen. Peredur Hughes. Ffestri Jerusalem am 7.00

12 Cyfarfod Arbennig i Holl Gasglyddion Cymorth Cristnogol. Jerusalem am 7.00

14 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.

16 Bore Coffi NSPCC. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00

22 Cyfarfod Blynyddol Plaid Cymru Dyffryn Ogwen gyda Leanne Wood. Cefnfaes am 7.00

23 Bore Coffi Plaid Cymru. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00

28 Cangen Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

£18 Gwledydd Prydain

£27 Ewrop

£36 Gweddill y Byd

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com

01248 600184

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan

Cysodwyd gan Tasg,
Gorffwysfa, Sling, Tregarth
LL57 4RJ 07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
 01248 601669

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

ENWOGION LLÊN DYFFRYN OGWEN

O'r dudalen Flaen.

Y Parchedig E.Tegla Davies,
Y Prifardd Emrys Edwards,
Yr Athro Idris Foster.

Rhoddion i'r Llais

£20.00

Er cof am Mr. a Mrs. Brinley Jones (Rhes Coetmor, Bethesda gynt), gan y plant

£5.00

Mr Emyr W Williams, Porthaethwy

£25.00

Mr Bryn Roberts, Sain Ffagan, Caerdydd

£7.00

Mrs Gwen Pritchard, Bangor

£7.00

Mr Hywel Williams, Llanfairpwll

£10.00

Mrs Mair Jones, Windsor

£2.00

Mrs Glenys Roberts, Hen Barc

£12.00

Mr Myrddin Williams, Clynog Fawr

£12.00

Mrs Donna Coleby, Preston

£12.00

Mrs EV Amos, Glanogwen

£7.00

Dr Gwen Gruffudd, Aberystwyth

£12.00

Mr Gwynfryn Davies, Caernarfon

£8.00

Mrs Eirwen Hughes, Ripponden

£12.00

Dr Elwyn Hughes, Ystradgynlais

£7.00

Mr DW Thomas, Barrow In Furness

£12.00

Mrs Joan Jones, Cemaes

£12.00

Mr Ken Jones, Edgware

£10.00

Mr Gareth William Jones, Bow Street, Ger Aberystwyth

£7.00

Ms. Betty Jones, Deganwy

£200.00

Cyngor Cymuned Pentir

£6.50

Mrs. Ettie Evans, 10 Glan Ffrydlas, Bethesda

£10.00

Mrs. Nancy Williams,

£10.00

Di –enw Bethesda

£5.00

Mr. Selwyn Owen, 12 Ffordd Ffrydlas, Bethesda

Diolch yn Fawr

Cadeirydd Newydd

Diolch i Dewi A Morgan, Park Villa, am gytuno i fod yn Gadeirydd Llais Ogwan. Mae'n olynu André Lomozic a fu'n Gadeirydd am dair blynedd. Diolch André.

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd 601415

Neville Hughes 600853

Ariennir gan Lywodraeth Cymru

Clwb Cyfeillion
Llais Ogwan

Gwobrau Blynyddol

- £100 (49) Mrs. Nancy Williams, Ffordd Stesion, Bethesda.
- £75 (176) Mr. Glyn P. Evans, Meol Brace, Amwythig.
- £50 (123) Mrs. Dilys Jones, Pencilan, Pen y Bryn, Bethesda.
- £25 (95) Mrs. Gwyneth Morris, Gwaen Gwiall, Gerlan.
- £25 (130) Mr. Wynne ap Iorwerth, Glanrafon Bach, Mynydd Llandygai.

Gwobrau Mis Rhagfyr

- £30 (69) Mrs. Eira Wyn Hughes, Ffordd Ffrydlas, Bethesda.
- £20 (189) Mrs. Ray Davies, Caerdydd.
- £10 (11) Mrs. Orina Pritchard, Rhos y Nant, Bethesda.
- £5 (116) Mr. Gwyn Roberts, Rhes Buddug, Bethesda.

Gwobrau Mis Ionawr

- £30 (93) Mrs. Karen Aston, 31 Erw Las, Bethesda.
- £20 (114) Miss Gwen Aaron, Carreg y Gath, Rhiwlas.
- £10 (122) Mrs. Elizabeth Evans, 12 Rhos y Coed, Bethesda.
- £5 (21) Mrs. Eleanor Morris, Bigil, Rhos y Nant, Bethesda

Ar Werth

OFFER RECORDIO
LLAIS OGWAN

Dyma'r manylion (yn yr iaith wreiddiol)
Tascan M-06
(Master Control Mixer Board)
Denon DRS-810
3-Head Stereo Cassette Deck
Sennheiser HD25 Headphones
AK6 microphones X 4
Microphone stands X 4

Prynwyd y cyfarpar uchod yn 1995 am oddeutu £1000. Bellach mae Llais Ogwan yn cael ei recordio yn fisol yn stiwdio Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru ym Mangor - felly mae'r offer yn segur ers tro.

**Derbynnir Cynigion Rhesymol
Cysylltwch â Gareth Llwyd
601415**

O’r Ochor Arall
Llyfr Neil Maffia



Cafodd hunangofiant Neil Maffia, ‘O’r Ochor Arall’ ei lansio yn nhafarn Llangollen yn ddiweddar. Roedd yn noson llwyddiannus iawn, gyda’r gynullleidfaf’n cael ei gwerfreiddio gan straeon a chaneuon acwstig Neil.

Sais bach chwech oed oedd Neil Richard Williams pan gyrhaeddodd ei gartref newydd yn Nhregarth yn y glaw. Ddeugain mlynedd yn ddiweddarach, mae Neil Maffia yn wyneb cyfarwydd fel actor, cerddor a chyfansoddwr.

Yn y gyfrol onest hon, cawn rannu profiadau Neil wrth iddo ddod yn rhan o’i gymuned newydd, ymddiddori mewn cerddoriaeth a theatr a dod yn aelod o un o fandiau mwyaf y Sîn Roc Gymraeg.

O uchelfannau perfformio mewn gigs eiconig i ddamwain erchyll a newidiodd y band am byth, dyma hanes Neil, a Maffia Mr Huws, o’r ochr arall.

O’r Ochor Arall, Gwasg Carreg Gwalch, £8.50
ISBN: 9781845273743
Ar gael o’ch siop lyfrau leol neu www.carreg-gwalch.com



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948
Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076
alunffred.jones@cymru.gov.uk



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch af ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948
Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076
williamschy@parliament.uk

Bethesda

Llên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ **600431**

Siop Kathy
Stryd Fawr, Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☐ ☎ **601592**

Joe Hughes,
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda ☐☎ **601902**

Wyres Gyntaf
Yn gynnar ym mis Rhagfyr bu John ac Avril Edwards, Erw Las, ar ymweliad i’r Almaen i gyfarfod â’u hwyses newydd – Cari Marie. Ganwyd Cari ar 18 Tachwedd i Huw a Lia Edwards, sydd wedi ymgartrefu ym Munich. Dyma wyres gyntaf John ac Avril ond mae ganddynt dri o wyrion, sef Alfie yn Abertawe, ac Owen a Tomos ym Mae Penrhyn.

Diolch
Dymuna teulu’r diweddar Denis Howell, Ffordd Ffrydlas, ddiolch am y caredigrwydd, y cardiau a’r arian a roddwyd er cof amdano tuag at y Gymdeithas Clefyd Siwgrwr. Diolch yn fawr, oddi wrth Hilda, Sandra, Graham a Grant.

Dyweddiad
Llongyfarchidaau i Menna, merch Ieuan a Blodeuwedd Wyn, Carneddi, a Rhys, mab Richard a Mary Jones, y Ddol, Bethel, ar eu dyweddïad. Dymunwn yn dda i’r ddau.

Diolch
Dymun Selwyn, 12 Ffordd Ffrydlas ddiolch o galon i’w gymdogion, ffrindiau a phobl yr ardal a thu hwnt am bob caredigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Brenda. Diolch hefyd am y rhoddion i Gymdeithas Alzheimer ac Ymchwil Canser.

Ysbyty
Cofion cynnes atoch chi a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall eich bod yn gwellla. Mrs Doris Jones, Maes Coetmor. Mrs Vera Morgan, Glanogwen. Mr Thomas Jones, Rhos-y-coed.

Cydymdeimlo
Bu sawl teulu mewn profedigaeth yn ystod cyfnod y Nadolig a’r Flwyddyn Newydd ac anfonwn ein cydymdeimlad atoch chi i gyd: Maria a Calvin a’r teulu, 4 Maes Coetmor – Maria ar golli ei brawd Mr Peter Beeby o Fangor, yn 52 oed.

Mr a Mrs Dafydd Morris, Ffordd Abercaseg, ar golli chwaer a chwaer yng nghyfraith annwyl.

Mr a Mrs G. Jones a’r teulu, Penybryn, sydd wedi colli tad, taid a hen daid, sef Mr Norman Roberts, Bangor, ynt o Fethesda.

Mr a Mrs J Roberts a’r teulu, Ffordd Bangor, sydd wedi colli brawd. Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Heulwen Roberts a Mr Dafydd Pritchard.

Mrs Glenys Lloyd Jones a’r teulu, Glanffrydlas, ar golli chwaer a modryb, sef Mrs Mona Jones Roberts, y Gerlan.

Marwolaeth
Yn Ysbyty Gwynedd ar 30 Tachwedd 2012 bu farw Mrs Brenda Owen, 12 Ffordd Ffrydlas, yn 70 oed; priod annwyl Mr Selwyn Owen a mam a mam yng nghyfraith garedig i Alwena a David, Nerys a Phil, Medwyn a Mari; Nain hoffus i Rhys, Meg, Ffion, Gareth, Bethan, Anna, Alys, Ales a Lowri; Chwaer annwyl i Sheila, Glenys, Selwyn, Vernon ac Eifion; chwaer yng nghyfraith a mobryb.

Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Gwener, 7 Rhagfyr gyda gwasanaeth yng Nghapel Jerusalem lle roedd yn aelod selog a gweithgar, ac yna yn Amlosgfa Bangor. Gwasanaethwyd gan ei Gweinidog, y Parchedig Geraint S. R. Hughes a’r Parchedig John Owen. Rhoddwyd teyrnged hyfryd i Brenda gan Mrs Elina Owen. Mrs Gwenno Evans oedd wrth yr organ. Claddwyd ei llwch ym mynwent Coetmor gyda’r gweinidog yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â chi Selwyn, a’r plant a’r teulu, yn eich profedigaeth fawr o golli Brenda.

Marwolaeth
Ar fore dydd Nadolig yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs Elizabeth Price (Betty), Brynteg, yn 87 oed. Priod y diweddar Mr Glyn Price a mam annwyl i Mari. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor ddydd Iau, 3 Ionawr. Cydymdeimlwn â chi i gyd fel teulu.

Gorffwysfan
Aeth criw o’r aelodau a chyfeillion ar wibdaith i Gaer ar ddydd Mawrth, 4 Rhagfyr a chafwyd diwrnod da. Yna ar ddydd Mawrth 11 Rhagfyr aethpwyd i Landudno yn y bore ac i westy Glan Aber, Betws y Coed, lle cafwyd cinio Nadolig ardderchog. Diolchodd y Cadeirydd, Mr Eric Jones, i bawb am y trefniadau a’r gwobrau ar gyfer y raffl .

Yna, ar brynhawn dydd Iau, 20 Rhagfyr, cafwyd gwahoddiad gan Ysgol Dyffryn Ogwen i de Nadolig ac adloniant. Cafwyd prynhawn ardderchog yng nghwmni’r disgyblion.

Diolch yn fawr i’r Prifathro, y staff a’r disgyblion am eu croeso.

Sefydliad y Merched, Carneddi

Ar 3 Ionawr cawsom ein cyfarfod cyntaf o’r flwyddyn newydd. Rhoddodd ein llywydd, Gwyneth Morrism groeso cynnes i bawb a dymunodd gyfarchion y flwyddyn u’r aelodau a oedd yn breseno. Yr oedd yn gobeithio fod pawb wedi cael Nadolig wrth eu bodd. Yn anffodus roedd rhai ymddiheriadau gan rai o’r aelodau oherwydd annwyd ac yn y blaen, ond roedd dwy aelod newydd wedi dod atom, sef Ceinwen Huighes a Ceri Dart.

Cydymdeimlwyd â Glenys Wyn Jones a gollodd chwaer yn ddiweddar ac mae ein cofion bwys yn mynd at y teulu. Diolchodd Gwyneth i Dilys Jones am drefnu’r cinio Nadolig ar y cyd â Merched y Wawr, yn Cartio Môn. Cawson ginio Nadolig gwerth chweil, gyda pawb yn mwynhau yn fawr iawn. Llongyfarchwyd Cadi Iolen, sef wyres Nancy Thomas, ar ei phriodas yn Rhiwlas ar 30 Rhagfyr. Pob lwc i’r pâr ifanc at y dyfodol.

Gwen Davies oedd enillydd y gystadleuaeth fisol o fewn y sefydliad, felly bydd yn cael cadw’r cwpan am flwyddyn eto. Mwy o waith i Gwen!!! Darllenwyd cofnodion mis Rhagfyr gan Jean Hughes a’r llythyr misol a’i gynwys gan Gwyneth Morris.

Ein gŵr gwadd am y noson oedd Richie Bale, yn sefyll yn y bwlech yn lle Dafydd Morris a oedd o dan annwyd trwm. Gwellhad buan iddo! Fe gawsom noson dda iawn, gyda Richie yn ein tywys i ben y mynydd uchaf, sef Everest yn yr Himalayas. Mae Richie yn aelod o’r Awyrlu ac yn defydlog yn y Fali, Sir Fôn, ac yn cydweithio gyda’r enwog Prince William. ae’n dysbu Cymraeg ac yn gwneud yn dda iawn. Dalier ati Richie !! Yn ystod ei gyfnod gyda’r awyru mae wedi cael cyfle i drafaelio’r byd ac wedi mwynhau yn fawr iawn. Diolchodd Gwyneth iddo ac i’r gwestwagedd am y baned. Enillydd y wobr Iwcus (rhoddwdig gan Jean Hughes) oedd Ceri Dart, un o’r aelodau newydd.

Eglwys Crist, Glanogwen

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

Pob bore Sul am 8.00yb - Cymun Bendigaid
Sul Cyntaf pob mis - “Llanast yn y Llan” (Gweler isod) – 11.00yb
Ail a thrydydd Sul pob mis - Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00yb
Pedwerydd Sul pob mis - Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00yb
Pumed Sul - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Pentir (Lleoliad i’w gyhoeddi)

Pob bore Mercher am 10.30yb - Cymun Bendigaid

Croeso cynnes i bawb i’r gwasanaethau uchod.

Llanast yn y Llan - Na nid llanast go iawn!! Rhyw fath o wasanaeth teuluol anffurfiol. Dewisir thema ar gyfer y gwasanaeth ac mae cyfle i brofi gweithgareddau ymarferol a chreu arddangosfa. Cyfle i blant ac oedolion gael hwyl wrth addoli. Ar ddiwedd y gwasanaeth trefnir lluniaeth i bawb. Dewch draw ar Sul cyntaf y mis i weld beth sy’n mynd ymlaen.

Arch Noa. Clwb bach yw hwn ar gyfer plant bach cyn oed ysgol. Mae yn cyfarfod yn Ysgol Abercaseg pob bore Llun am 9.15yb.

Gwasanaethau Nadolig
Cynhaliwyd Gwasanaethau bendithiol iawn dros gyfnod Gŵyl Y Geni o dan arweiniad Y Canon Idris Thomas. Diolch o galon i bawb a fu yn trefnu ac yn arbennig i Christine am drefnu’r gwasanaeth Naw Llith a Charol ac i’r côr am eu rhan i ychwanegu at naws y gwasanaeth. Diolch hefyd i bawb a ddaeth ynghyd i addurno’r eglwys mor hardd ar gyfer y Nadolig.

Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i bawb yn y Plwyf.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

‘LLENWI’R CWPAN’

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau rhwng 10.00 o’r gloch a hanner dydd

CAPEL BETHANIA

Oedfa Nesaf

3 Mawrth:
Mr Dafydd Thomas (5.30)

Croeso Cynnes i Bawb

Teyrnged i Brenda Owen oddi wrth ei brodyr a’i chwiorydd

Beth allwn ddweud am Brenda nad yw pawb yn ei wybod yn barod. Merch ddirwgnach, anhunanol, garedig, gymwynasgar, gariadus, chwaer, gwraig, mam a nain ddibyniadwy. Dim ond geiriau ydy rhain, a gall geiriau fyth gyflawni na chwmpasu yn llawn yr hyn oll oedd Brenda.

Roedd bywyd Brenda yn troi o gwmpas ei gwnïo – gwnïo oedd ei byd ac roedd hi wedi cyrraedd lefel broffesiynol uchel ac wedi dysgu ei hun ar hyd y ffordd. Mae hynny bron yn anhygoel – wnaeth na neb erioed ddysgu Brenda sut i wnïo. Dwi yn ei chofio hi yn dechrau gyda pheiriant bach Singer. Troi yr olwyn gydag un llaw a dal y defnydd yn ei le gyda’r llaw arall. Buan y datblygodd y peiriannau dros y blynyddoedd. Cael peiriant trydan gyda’r pedal gyrru ar y llawr a’i wasgu gyda’i throed. Tua’r adeg yma y meddyliodd Selwyn y byddai yn syniad da i Brenda ddysgu dreifio car. Wnaeth y dysgu yma ddim para yn hir gan i Selwyn ddweud bod Brenda yn meddwl mai pedal gyrru peiriant gwnïo oedd y pedal gyrru car!! Roedd ei pheiriannau diweddera’ yn soffistigedig iawn ac roedd eisiau pen gwnïo go dda i ddeall holl gyfrinachau y peiriant – os na ddysgodd hi sut i yrru car, fe ddysgodd yn syndod o ddi-drafferth, sut i ddeall y peiriannau gwnïo cymleth roedd hi yn eu defnyddio. Roedd rhan helaeth o ddillad Brenda yn ddillad roedd hi wedi ei gwneud ei hun a rheini, yn naturiol, o safon uchel iawn. Fyddai unrhyw beth arall ddim digon da.

Dwi’n cofio flynyddoedd yn ôl yn Ysgol Dyffryn Ogwen, pan oeddem yn dechrau cael gwersi Lladin gan Latina. Pwy sydd yn ei chofio hi, mae’n debyg mai Miss Jones Latin oedd ei henw swyddogol. Gofynnodd hi i’r dosbarth un tro os oedd gennym frawd neu chwaer yn yr ysgol, a phan ddywedais i fod gennyf chwaer, Brenda, ei hymateb oedd, “Oh! So you are the brother of the girl that wears anything she likes to come to school.” Dilorni Brenda oedd hi wrth gwrs, ond chafodd Latina ddim cyfle i weld sut y datblygodd Brenda ym myd dillad a’r safon uchel y cyrhaeddodd hi!

Ond trwy holl brysurdeb ei gwnïo roedd gan Brenda ddigon o amser i’w theulu hefyd. Gwyddom am ei chymwynasgarwch a’i charedigrwydd. Cofiw’n fel y bu iddi edrych ar ôl Mam, Anti Myra ac Uncle Wil yn hollol ddirwgnach ac anhunanol. Ac fel nain, bu iddi dreulio blynyddoedd yn gwarchod ei hwyrion a’i hwyresau.

Yn anffodus, ni fu’r naw mlynedd diwethaf yma yn flynyddoedd hwylus i Brenda, ond drwy’r cyfan roedd hi’n ddirwgnach ac yn ddigŵyn gan ddod dros un anhwylder ar ôl y llall gyda gwên a gwneud ei gorau glas i gario ymlaen gyda bywyd. Yn anffodus, ni allodd ddod dros y salwch diwethaf yma!

Nerys, Alwena a Medwyn, rydych wedi cael colled fawr, a bydd bwlch enfawr ar ôl eich mam, ond cofiwch bod gennych filoedd o atgofion hapus a dedwydd i’ch cynnal. Diolch i chi am gynnal eich tad dros yr wythnosau annodd a ddaeth i’w ran.

Meg, Bethan, Ffion, Rhys, Gareth Anna, Alys, Aled a Lowri, roedd eich nain yn falch iawn ohonoch ac yn meddwl y byd o bob un ohonoch. Roedd hi yn nain “proud” iawn. Hyd yn oed pan oedd hi’n wael iawn, roedd gwên ar ei hwyneb pan oedd yn clywed eich enwau. Rydym ninnau fel brodyr a chwiorydd, a brodyr a chwiorydd yng nghyfraith, yn mynd i weld yr un bwlch ar ei hôl hi, ac fe fydd gennym ninnau hefyd atgofion hapus amdani. Roeddem ni yn chwech, tri brawd a thair chwaer, a phob amser, ar achlysuron arbennig, priodasau gan amlaf, byddai’n rhaid cael llun o’r chwech ac mae llawer o’r rhain wedi cael eu tynnu dros y blynyddoedd. Ni fydd hyn mwyach.

Selwyn, mae’n debyg mai i ti y mae’r golled fwyaf. Rwyf wedi colli cymar oes ac roedd y ddau ohonoch mor agos at eich gilydd, y ddau ohonoch yn meddwl y byd o’ch gilydd. Buost yn gefnogol iddi ym mhob peth roedd hi yn ei wneud ac yn ei helpu ym mhob ffordd. Roedd Brenda wrth ei bodd pan wnest ti ystafell wnïo arbennig iddi a hithau yn falch o ddangos beth oeddet wedi ei wneud iddi. Cafodd Brenda flynyddoedd o hapusrwydd yn yr ystafell honno. Fe wyddom nad yw pethau wedi bod yn hawdd i ti dros y blynyddoedd diwethaf yma, ond fe wyddom hefyd dy fod wedi bod o gymorth mawr i Brenda ac fe hoffwn yma, ddiolch i ti am dy ofal tyner a diflino ohoni. Selwyn, rwyf wedi bod yn gefn mawr iddi ac wedi gwneud popeth o fewn dy allu i gadw Brenda yn hapus a dedwydd trwy’r dyddiau caled.

Brenda, mi wyt ti yn angel – gorffwys mewn hedd a gwyn fo dy fyd. Selwyn - ac ar ran Sheila, Vernon, Glynys ac Eifion



BRENDA OWEN 1942-2012. (Teyrnged a gyflwynwyd gan Mrs. Elina Owen yng Nghapel Jerusalem ar ddydd yr Angladd)

Braint yw cael talu teyrnged i un mor annwyl â Brenda er mai gofid mawr yw gorfod gwneud hynny a hithau ddim ond newydd gyrraedd oed yr addewid.

Yn y lle cyntaf, hoffwn gydymdeimlo gyda Selwyn a diolch iddo am y gofal arbennig a roddodd i Brenda dros flynyddoedd ei gwaeledd. Cydymdeimlwn hefyd â’r plant Alwenna, Nerys a Medwyn a’u teuluoedd, ei brodyr a’i chwiorydd a’r teuluoedd i gyd.

Roedd Brenda yn ail blentyn i Norman a Katie Jones, a magwyd hi yng Nghiltrefnus, Gerlan. Roedd y teulu yn holl bwysig iddi. Roedd wedi ei magu mewn teulu clos ac roedd hithau wedi ymroi ati i fod yn wraig ac yn fam a nain dda. Pan ddaethom ni i Fethesda yn 1966, roedd Selwyn a hithau wedi priodi ers rhyw flwyddyn, a’r hanes cyntaf a gefais amdanynt oedd gan y diweddar Mrs. Janet Huws, Cilfodan, wrth i mi fynd gyda hi i gasglu ar Allt Penybryn rhyw noson, yn dangos eu cartref ar Ffordd Ffrydlas, ac yn canmol y pâr bach ifanc gweithgar oedd wedi gwneud eu cartref yno. Cofiaf iddi sôn am sgiliau Brenda gyda’r nodwydd. Cafodd Brenda ei haddysgu yn Ysgol Gerlan ac Ysgol Cefnfaes ac yna mynd yn wniadwraig i siopau Bowen, Henderson, a siop oedd yn gwerthu llenni ym Mangor.

Ar ôl geni’r plant, bu’n gweithio o adref, a dyna pryd y gwnaeth gymwynas fawr â mi. Roeddwn wedi mynd yn ôl i ddysgu fel athrawes lanw ac wedi cael fy anfon i Ysgol Aberconwy. Roedd y merched yn ddigon hen i fynd adref eu hunain o’r ysgol, ond mater arall oedd disgwyl iddynt fedru edrych ar ôl eu brawd bach direidus. Brenda fu yn edrych ar ei ôl bob nos nes roeddwn i wedi cyrraedd o Gonwy. Bu’n ddiwyd a gweithgar ar hyd ei hoes, yn enwedig gyda’i nodwydd a hyd yn oed yn ei dyddiau olaf, gofidiai na allai wnïo bellach.

Mae’r canwr Meic Stevens o Solfach wedi gallu crynhoi hiraeth a galar yn y gân a ddaeth ag ef i’r amlwg rai blynyddoedd yn ôl bellach. Wrth hiraethu am ei yncwl Walter a aeth i ffwrdd yn y llong danfor, byth i ddod yn ôl, mae wedi gallu mynegi’r boen a’r golled sydd yn brofiad i bawb yn ei dro, ac mae ganddo gân arall rwyf yn hynod hoff ohoni. Sôn y mae am y dyfroedd oer yn gorchuddio Llyn Tryweryn, ond yn lle amlhau geiriau wrth fynegi’r profiad chwerw o golli cartref, mae’n cronni’r profiad i eiriau syml iawn:

Mae’r blodau wrth y drws yn dlws
Mae’r blodau yn yr ardd yn hardd.

Mae’n siwr eich bod i gyd wedi sylwi ar ardd hardd dros ben sydd gan Selwyn, a gobeithio eich bod hefyd wedi sylwi ar y blodau wrth y drws, oherwydd i mi mae’r blodau yma yn cyfleu Brenda i’r dim. Dwy goeden rosod fechan ydynt yn llawn blodau drwy’r haf. Nid y rhosod mawr lliwgar fel rhosod David Austen a’u tebyg sydd yn gweiddi 'welwch i fi' ond blodau tawel, hardd sy’n dal i flodeuo ac i roi o’u prydfwerthwch yn ddiddiwedd bron. A dyna i chi Brenda i’r dim - merch dlos , bob amser yn gwisgo dillad del a llawer iawn ohonynt wedi eu gwneud ganddi hi ei hun. Roedd yn gwnïo i’r plant ac i’r wyrion a doedd dim yn well ganddi na gwneud dillad ar gyfer cyngerdd neu garnifal. Roedd yn cefnogi cystadleuthau yn y Sioe a’r Eisteddfod leol a gallech ddibynnu arni i ddod a rhywbeth i’w arddangos ar stondin grefftiau Merched y Wawr bob tro.

Mae’r blodau yn dal i flodeuo dros gyfnod hir ac mae ffrwyth llafur Brenda dros y blynyddoedd i’w weld yn y capel yma a’r festrïoedd. Gwnaeth ugeiniau o ffedogau a chlustogau ar gyfer codi arian i wahanol bethau a bu’n ddiwyd hyd y medrai yn y Clwb Celf. Bu’n ymwelydd ffyddlon â chleifion y fro, gan fynd a chacen i rai oedd ddim yn dda. Y blodyn wrth y drws yn dal i rannu ei harddwch.

Roedd Brenda yn hoffi hwyl. Hoffi mynd ar wyliau a hoffi cwmni ei theulu a’i ffrindiau. Mae gennych fel teulu stôr o atgofion melys amdani. Cofiwch droi yn ôl at yr atgofion hynny yn fynych. Pelydrau’r haul ar ronnynau dŵr sy’n creu enfys. Mae wedi glawio yn drwm arnoch yn ystod y misoedd olaf, ond bydded i heulwen yr atgofion greu enfys hardd i gofio amdani, ac yn eich hiraeth a galar, fe wyddoch i ble i droi.

Cyfarchion

Mae Mrs Bet Owen
12 Glan Ffrydlas
yn gobeithio bod ei
ffrindiau a’i chymdogion
wedi cael Nadolig Llawn
ac yn dymuno blwyddyn
newydd dda i bawb.

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

Paned a Sgwrs
Caffi Fitzpatrick 11.00 – 12.00
Dydd Sadwrn cyntaf pob mis
Peint a Sgwrs
Douglas Arms Bethesda
20.00 – 21.00
Trydydd Nos Lun pob mis

Yr Eglwys Unedig
Gweinidog: Y Parchedig Geraint Hughes

Daeth newyddion trist eto y mis yma wrth i ni glywed am farwolaeth Mrs. Mona Roberts, Gerlan a hynny mor fuan ar ôl iddi golli ei phriod. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'r plant a'u teuluoedd wrth iddynt wynebu ail brofedigaeth a chydymdeimlwn hefyd gyda'i dwy chwaer a'u teuluoedd hwythau. Roedd Mona yn fregus ei hiechyd ers rhai blynyddoedd ond cyn hynny roedd yn aelod ffyddlon iawn ac yn weithgar ym myd y canu yn eglwys y Gerlan.

Mae nifer mawr o'r aelodau yn cwyno ac wedi methu cael mynychu y Cyfarfodydd Nadolig. Gobeithio y daw'r flwyddyn newydd a gwell tywydd i ni a chyfle i bobl gael ymadael â'r fflw a'r afiechydon eraill sydd o gwmpas. Meddyliwn am deuluoedd ar hyd y wlad y bu'n rhaid iddynt symud allan o'u cartrefi oherwydd y llifogydd.

Daeth y llifogydd a rhagor o gostau a thrafferthion i'r eglwys unwaith eto gan i'r boiler gael difrod eto yn y llifogydd mawr. Diolch i'r rhai fu mor brysur yn cael pethau i drefn.

Roedd y Cyfarfod Gweddi ddechrau'r mis dan ofal Alwenna Puw gyda chymorth Jean Ogwen Jones a Neville Hughes. Thema'r gwasanaeth oedd Yr Adfent.

Ar y pumed o Ragfyr, cynhaliwyd cyfarfod Nadolig y Gymdeithas Lenyddol yng nghapel Carmel. Trefnwyd y cyfarfod gan Mrs. Helen Wyn Williams a chyflwynwyd yr eitemau gan y Parch. Dafydd Coetmor Williams. Cymerwyd rhan gan amryw o'r aelodau a pharatowyd cwpanaid o de ganddynt. Diolchodd y Gweinidog i bawb.

Ar y trydydd ar ddeg o'r mis, cynhaliwyd Cymdeithas y Chworiydd a mynegwyd ein chwithdod o golli Brenda. Daeth Parti Clychau'r Grug o dan arweiniad Glenys Griffith o Fethel atom i'n diddanu a chawsom gyngerdd Nadoligaidd hyfryd iawn ganddynt. Roedd rhai o'r aelodau iau wedi paratoi paned gyda mins peis a bara cwta blasus dros ben. Roedd pawb yn canmol y canu a'r cymdeithasu. Diolchwyd i bawb gan Medi.

Cynhaliwyd cyfarfod Nadolig y plant, bore Sul, Rhagfyr 16 ac o dan arweiniad eu hathrawon Ysgol Sul fe wnaeth y plant eu gwaith yn ardderchog fel arfer. Diolch am yr holl waith caled ar fore Sul a phob nos Fawrth. Cafwyd parti Nadolig i ddilyn yn y festri ac ymweliad gan ŵr pwysig iawn.

Nos Sul, Rhagfyr 23, cafwyd noson o ganu carolau a darlenniadau yn y capel ar gyfer holl drigolion yr ardal. Cafwyd nifer o eitemau gan unigolion a chan Gôr Iau Ysgol Dyffryn Ogwen, Braf oedd gweld Menai Williams wedi gwella'n ddigon da i arwain y noson ond ni fedrai Côr y Dyffryn gymryd rhan eleni oherwydd ei salwch hi. Gobeithio ei bod yn holliach bellach ac y bydd yn ôl gyda'i amryw weithgareddau yn fuan.

**EGLWYS UNEDIG
BETHESDA**
yng Nghapel Jerusalem

CYHOEDDIADAU'R SUL
IONAWR
20: Gweinidog
27: Mr Eurfryn Davies (10.00);
Parch. G Richards (5.00)
CHWEFROR
3: Gweinidog
10: Parch. Ddr. Elwyn Richards
17: Parch. Cledwyn Williams
24: Gweinidog

Blwyddyn Newydd Dda i bawb.



Parti Dolig Capel Jerusalem

MERCHED Y WAWR, CANGEN BETHESDA

Ar y chweched o Ragfyr, diwrnod eithriadol o wlyb ac oer os cofiwch, roedd Merched y Wawr yn ymuno gyda Sefydliad y Merched i fynd am ginio Nadolig i Ganolfan Certio Môn. Dilys Jones oedd wedi gwneud y trefniadau ar gyfer pawb ond chwarae teg, roedd yn ormod disgwyl iddi drefnu'r tywydd hefyd! Efallai petai wedi bod yn braf y byddai wedi trefnu rاسus ar ein cyfer a dyna i chi olygfa fyddai honno wedi bod! Mae golygydd y mis yn diolch nad oes yna luniau o'r ffasiwn beth!!

Gwyneth Morris, Llywydd y Sefydliad, groesawodd pawb a llawenhau ein bod yn cael cyd-gyfarfod unwaith yn rhagor. Talodd deyrnged annwyl iawn i Brenda Owen, un o aelodau ffyddlon Merched y Wawr ac un y byddwn yn ei cholli o lawer cylch.

Wedi'r bwyta a'r sgwrsio a mwynhau'r cymdeithasu, talwyd y diolchiadau gan Elina Owen, Llywydd Merched y Wawr, gan obeithio y cawn gyd-gyfarfod eto'n fuan,

Diolch yn fawr iawn i Dilys Jones am yr holl waith.
Bydd y gangen yn cyfarfod eto nos Iau, Ionawr 31 yng Nghanolfan y Cefnfaes.

**Rachub a
Llanllechid**

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ 601880

Ysbyty
Anfonwn ein cofion at Nansi Hughes, Llwynbleddyn, sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Cofion hefyd at Iestyn Hughes, Gardd Eden, a Leon Williams, Maes Bleddyn, sydd wedi derbyn triniaeth mewn ysbytai yn Lerpwl.

Croeso Adref
i Gruff Williams, Ffordd Llanllechid a Mrs Alice Jones, Tan y Garth, y ddau wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty.

Croeso
i Robin a Rhian sydd wedi ymgartrefu yn 3 Bron Arfon. Gobeithio y byddant yn setlo'n fuan ac yn teimlo'n gartrefol yma.

Pen-blwydd Hapus
Anfonwn ddymuniadau am ben-blwydd hapus arbennig at Eirwyn Pritchard, Bron Arfon.

Dyweddïo
Llongyfarchiadau i Jena Tugwell a David Alsup, Cae Rhos, Llwyn Bedw ar achlysur eu dyweddïad dros y Nadolig. Dymuniadau gorau oddi wrth y teulu i gyd.

CAPEL CARMEL
Gwasanaethau

Ionawr
20 Parch Euros Wyn Jones 2.00
27 Y Gweinidog 2.00 a 5.00

Chwefror
03 Parch D C Williams 5.00
10 Y Gweinidog 2.00 a 5.00

Yr Ysgol Sul 10.30 y bore
Dwylo prysur, nos Wener 6.30.

Croeso Cynnes i Bawb

Capel Carmel

Cymdeithas yr Ofalaeth
Yn ystod mis Rhagfyr croesawyd aaelodau Cymdeithas yr Ofalaeth i Garmel. 'Dathlu'r Nadolig' oedd thema'r noson a chafwyd darlenniadau yn egluro cefndir rhai o'r carolau plygain ynghyd â rhai mwy diweddar. Canwyd y carolau a chafwyd eitemau gan Anna Mair, Elen Wyn, Beca Nia, Lucy a Beca Jen. Mwynhawyd paned a mins pei ar ddiweddd y noson. Diolch i bawb a gymerodd ran ac i'r merched am baratoi'r baned.



Y genod a ganodd yn y gymdeithas

Gwasanaeth Nadolig

Daeth cynulleidfaf gref i Wasanaeth Nadolig y plant a'r bobl ifanc. 'Y Goeden Nadolig' oedd thema'r gwasanaeth a chafwyd stori am deulu yn byw ar ymyl coedwig fawr. Roedd y tad a'r bechgyn allan yn y goedwig yn torri coed i'w gwerthu tra roedd y fam a'r merched yn brysur yn paratoi at yr ŵyl. Gyda'r nos daeth criw o enethod a phlant bach i'r tŷ i ganu carolau ac i osod lanteri ar y goeden Nadolig.



Rhai o'r plant a gymerodd ran yn y gwasanaeth

Te Bach

Yn ôl ein harfer bu'r chwirydd yn brysur yn trefnu a pharatoi Te Bach Nadolig. Bu'r Clwb Gwau yng Nghaffi Coed y Brenin am De Nadolig. Diolch i Karen ac i staff Coed y Brenin am croeso ac am de ardderchog.

Parti

Ymunodd plant Bethlehem Talybont gydag aelodau'r Ysgol Sul am barti mawr yn y Festri. Daeth Awen Roberts, cynorthwywraig yn ysgol llanllechid i ddysgu dawnys steil 'Gangam' i'r plant. Cyrhaeddodd Siôn Corn a'i helpar mewn pryd a chafodd sgwrs gyda'r plant a rhannu siocled iddynt. Yna fe fwynhawyd y wledd a baratowyd ar eu cyfer. Diolch yn fawr i bawb a fu'n helpu ac a roddodd fwydydd tuag at y parti, hefyd i Neville Hughes a ddaeth a'i gitar i ganu gyda'r criw. Bowlio deg oedd gwobr Aelodau'r Clwb Dwylo Pysur am eu gwaith caled dros y flwyddyn. Aethpwyd i'r ganolfan yn Llandudno ac yna i ymweld â Mr McDonald cyn troi am adref.



Helpar Siôn Corn ym Mharti Nadolig Carmel

Tybed a fyddai gennych ddiddordeb mewn teipio ar gyfer y Llais?

Angen sglilau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a rhyngrwyd.

Telerau rhesymol.
(07902 362213) post@tasg.co.uk

Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Profedigaeth

Ychydig cyn y Nadolig brawychwyd yr ardal gan y newyddion trist am farwolaeth sydyn ac annisgwyl y diweddar Richard Alun Williams, Stryd Goronwy, ac yntau o fewn dyddiau yn unig i'w benblwydd yn 70 oed. Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys gyda'i weddw, Beryl Williams, a'i blant, Nia, Eryl, a Dylan, a'u teuluoedd, yn eu profedigaeth fawr. Bydd colled fawr ar ei ôl. Rydym yn cydymdeimlo gyda Nia a Berwyn Williams, a'r plant, Alun ac Elen, Stryd y Ffynnon, yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl.

Deunaw oed

Ddechrau'r mis hwn dathlodd Joanna Davies, Rallt Isaf, ei phenblwydd yn ddeunaw oed. Llongyfarchiadau mawr, Joanna, gobeithio iti fwynhau dy hun wrth ddathlu'r penblwydd arbennig.

Croeso

Rydym yn croesawu Gwion a Lisa, a'r plant, Aron ac Osian i'w cartref newydd yn Stryd y Ffynnon. Mae'n groeso yn ôl i'r Gerlan i Gwion, Lisa, ac Aron, gan iddynt fyw yn Stryd y Ffynnon am gyfnod cyn symud o'r ardal, ond roedd y dynfa yn ormod, a dychwelyd a wnaethant. Croeso mawr ichi i gyd atom yma, a gobeithiwn y byddwch yn hapus iawn efo ni.

Diolch

Dymuna Myfanwy Jones, Gwernydd, ddiolch o waelod calon i deulu, ffrindiau, a chymdogion, am eu caredigrwydd tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac wedi iddi ddychwelyd adref. Diolch yn fawr iawn am yr holl gardiau, galwadau ffôn, ac ymweliadau a dderbyniodd.

Llongyfarchiadau

Rydym yn llongyfarch Rhian ac Idris, Ciltrefnus, ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd merch fach, Lacey, i'w merch, Paula, a'i phartner, Sion, chwaer fach i Jamie. Llongyfarchiadau mawr i'r teulu i gyd.

Hanner cant

Rydym yn llongyfarch Rhian Jones, Yr Ardd Fawr, ar ddathlu penblwydd arbennig yn hanner cant oed. Gobeithio iti fwynhau'r dathlu gyda'r teulu a ffrindiau

Profedigaeth

Daeth y newyddion trist ar ddechrau'r flwyddyn am farwolaeth un arall o drigolion y Gerlan, sef y diweddar Mona Jones Roberts, Ffordd Gerlan, a

hithau wedi bod mewn iechyd bregus ers cryn amser. Does ond ychydig dros flwyddyn ers marwolaeth ei diweddar briod, Gwynfor. Rydym yn anfon ein cydymdeimlad llwyr a dwys i'w theulu i gyd, ac yn arbennig ei phlant, Caryl, Alun, ac Ioan, a'u teuluoedd. Bydd y golled yn un fawr i bawb o'r teulu.

Diolch

Hoffai Ann Williams, Stryd y Ffynnon, ddiolch o waelod calon i bawb o'r ardal, ac o'r tu allan, a'i noddodd yn ariannol i gymryd rhan mewn taith gerdded noddedig ar gyfer Apel Eleanor i brynu offer i Ward Alaw. Diolch, hefyd, i bawb a gyfrannodd, ac a gefnogodd y Bore Coffi llwyddiannus a gynhaliwyd yn Neuadd Ogwen i godi arian ar gyfer yr un apêl. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd.

Brysiwch wella

Mae Doris Jones. Maes Coetmor, Bethesda, wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd. Hoffai Gareth, Rhian, Glesni, Cai, a Mari, Lle Braf, Ffordd Abercaseg yrru eu cofion gorau at Nana, a dymuno adferiad buan a llwyr iddi.

Gadael

Rydym yn dymuno'r gorau i Mathew, Emily, a Cadi, sydd wedi symud o Stryd Hir i'w cartref newydd yng Nglanogwen. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn eich cartref newydd.

Carneddi

Derfel Roberts,
Ffordd Carneddi, Bethesda
☎ 600965

Geni

Llongyfarchiadau i Michael a Michelle, 18 Ffordd Carneddi ar enedigaeth hogyn bach, Cian John, ar 14 Rhagfyr, yn 8 pwys 2 owns. Brawd bach newydd i Chloe, Ceirion a Mared.

Diolch

Dymuna Beryl Buchanan, Tan y Gaer, ddiolch o waelod calon am yr holl gardiau, anrhegion, a'r dymuniadau da a dderbyniodd pan ddathlodd ei phenblwydd yn 70 oed ym mis Tachwedd. Yn ogystal, derbyniodd Beryl £600 o bunnau yn rhoddion penblwydd a chyfranodd £300 i Uned Damweiniau Pen yn Ysbyty Walton, Lerpwl, a £300 i'r Ambiwylans Awyr. Diolch hefyd i Sandra Owen (Llan) am y lluniaeth dathlu arbennig, ac i Hogia'r Bonc am yr adloniant yn y Clwb Criced. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Profedigaeth
Anfonwn ein cydymdeimlad at Rhian, 75 Bro Emrys a'r teulu ar achlysur marwolaeth ei mam Gwyneth Pritchard yng nghartref nyrsio Bryn Llifon gynt o Llys Dewi Sant, Bangor.

Hoffai Rhian a Cara ddiolch i bawb am y galwadau ffôn a'r cardiau a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth.

Cyfarchion y Tymor
Mae Idris a Rose Thomas, 16 Dolhelyg, yn gobeithio fod eu cymdogion a'u ffrindiau wedi mwynhau'r Nadolig ac yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Cydymdeimlad
Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs. Megan Baston, gynt o 14 Cae Gwigin. Anfonwn ein cydymdeimlad at y plant a'r cysylltiadau i gyd.

Eglwys Maes y Groes

Ar y dydd Mawrth cyntaf o'r mis cynhaliwyd bore coffi Nadolig yn yr Ysgoldy. Roedd pawb wedi mwynhau y mins peis a'r danteithion blasus. Diolch i bawb sydd yn ein cefnogi drwy'r flwyddyn a hefyd i gerddwyr Bethesda am eu ffyddlondeb bob mis. Rydym yn edrych ymlaen i'w gweld.
Bydd y boreau coffi yn parhau ar y dydd Mawrth cyntaf o'r mis yn ystod 2013.

Ar fore Sul y 23ain o Ragfyr cynhaliwyd gwasanaeth o naw llith a charolau o dan arweiniad ein ficer y Parchedig John Matthews a Geraint Gill yn cyfeilio. Darllenwyd ran o'r Beibl gan rai o'r aelodau.

Ar y Sul olaf o'r mis cafwyd gwasanaeth undebol yn Eglwys St Tegai. Arweiniwyd y Cymun Bendigaid gan y Parchedig Jenny Hood curad Eglwys Glanogwen.
Diolch i aelodau yr Eglwys am eu croeso a'r baned ar ddiwedd y gwasanaeth.



Mynwent Bethlehem dan ddŵr llifogydd mis Tachwedd.
(Diolch i Val Withers am fenthyg y llun)

Capel Bethlehem
Oedfaon

20 Ionawr : Gweinidog ;
27 Ionawr : Parchedig John Watkin
3 Chwefror : Gweinidog ;
10 Chwefror:
Parch. Ddr. Elwyn Richards;
17 Chwefror:
Parch. Cledwyn Williams.

**Oedfaon am 2 o'r gloch.
Croeso cynnes i bawb.**

Ysbyty
Da clywed fod Mrs. Rhiannon Williams, 15 Cae Gwigin, wedi cael dod adref yn dilyn triniaeth yn yr ysbyty cyn y Nadolig.

Deallwn hefyd fod Mrs. Rita Hughes, Lôn-ddŵr, yn dal i wella.

Pob dymuniad da am wellhad buan i bawb o'r pentref sy'n dioddef o waeledd neu anhwylder.

Capel Bethlehem, Talybont

Dychwelyd wedi 6 wythnos
Roedd y Sul cyntaf o'r flwyddyn newydd yn Sul hapus i aelodau Bethlehem oherwydd i ni allu cynnal ein hoedfa gyntaf yn dilyn difrod y llifogydd ar 22 Tachwedd.

Ein gweinidog, y Parchedig Geraint Hughes oedd yn gwasanaethu ac fe ddiolchodd i bawb a fu'n cynorthwyo i adfer y capel i'w gyflwr priodol. Yn anffodus ni fydd y festri yn barod am o leiaf bythefnos arall gan fod llawer mwy o waith i'w wneud yno. Edrychwn ymlaen at ddod yn ôl i'n trefn arferol gyda'r Ysgol Sul a chyfarfodydd Bwrlwm Bethlehem ac ati.



Parti
Bu plant Ysgol Sul Bethlehem yn mwynhau Parti Nadolig yng Ngharmel Llanllechid ar 16 Rhagfyr.
Nid oedd yn bosib cynnal parti ym Methlehem oherwydd y llifogydd. Gwerthfawrogwyd yn fawr y gwahoddiad caredig.

Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at Mrs Muriel Owen, 5 Pentre Llandygái, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli chwaer yng nghyfraith i'r diweddar Raymond ar ddydd Iau, 13 Rhagfyr, sef Mrs Anne Owen, Porthaethwy.
Cynhaliwyd ei hangladd ar ddydd Gwener 21 Rhagfyr yn Amlosgfa Bangor.

Gwaeledd
Anfonwn ein cofion cynnes at amryw o'n cymdogion sydd wedi bod yn wael yn ddiweddar:- Ernie a Nerys Coleman, Jim a Beryl Hughes, Dr Pam Jones, Olwen Lytham, Betty Williams a Dorothy Proudley Williams. Llwyf wellhad i chi a gobeithio y bydd eleni yn argoeli'n well.

Bore Coffi Nadolig
Yn Neuadd Ogwen ar fore Sadwrn, 15 Rhagfyr, cynhaliwyd Bore Coffi er budd Eglwys Sant Tegai, a gwnaed elw o £350. Diolch i bawb a roddodd o'u hamser prin i wneud y bore yn llwyddiant a diolch am y

croeso a gafwyd gan drigolion Dyffryn Ogwen.

Bingo
Diolch i Pauline a Raymond am trefnu Bingo er budd Neuadd Talgai bob mis yn ystod y flwyddyn 2012. Nid peth hawdd yw chwilio am wobrau, galw rhifau a sawl peth arall yn ystod y noson. Fe wnaed elw o £81 ym mis Tachwedd a £93 ym mis Rhagfyr, ac mae'r arian yma yn help garw i'r neuadd. Pob hwyl i chi eleni eto.

Noson Gymdeithasol
Nos Fawrth, 11 Rhagfyr, cyfarfu'r pentrefwyr yng ngwesty Gardd Fôn, y Felinheli, i ddathlu'r Nadolig. Cafwyd amser rhagorol a phawb wedi eu plesio'n fawr efo'r bwyd a'r gwmniath. Diolch i Eirlys, Iona a Liz am drefnu popeth.

Parti Nadolig
Cafodd yr henoed eu parti Nadolig yn Neuadd Talgai ddydd Mercher, 12 Rhagfyr. Daeth nifer dda i'r dathliad. Roedd digonedd i'w fwyta a bu'n brynhawn hapus a hwyliog hefyd. Diolch i bawb a fu'n paratoi a gweini yn ystod y dydd – roedd yr henoed yn ddiolchgar dros ben.

Eglwys Sant Tegai

Profedigaeth

Tristwch mawr i ni oedd clywed am farwolaeth Mrs Glenys Price Roberts, Haulfryn, 17 Parc Henblas, Llanfairfechan ar ddydd Iau, 20 Rhagfyr. Bu farw yn Ysbyty Gwynedd ar ôl gwaeledd hir yn 84 mlwydd oed. Cynhaliwyd ei hangladd cyhoeddus ddydd Iau, 27 Rhagfyr yn Eglwys y Santes Fair ac Eglwys Crist, Llanfairfechan gyda’r Barchedig Ganon Carol Evans yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn yn fawr â’r Parchedig Merfyn Price Roberts, ei gŵr, Gerallt ei mab, a’r teulu i gyd yn eu colled drist. Cofiwn Glenys yn dda fel gwraig annwyl a gweithgar dros ben, yn llawn hwyl ac yn ofalus iawn o Merfyn a Gerallt. Cawsom naw mlynedd hapus eithriadol yn eu cwmni pan oedd Merfyn yn Ficer yma yn Llandygái. Bendith Duw a fo ar y teulu bach.

Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Mrs Margaret Ann Baston, Talybont, yn eu profedigaeth ym mis Rhagfyr. Cynhaliwyd angladd Mrs Baston yn Eglwys Sant Tegai ar fore Gwener, 28 Rhagfyr gyda’r Barchedig Jennifer Hood (curad Glanogwen) yn gwasanaethau a Mr Geraint Gill wrth yr organ.

Gwaeledd

Dymunwn adferiad iechyd buan i Mrs Jane Couch, Mrs Beryl Edwards, Mr Harry Gross a Mrs Jay Radcliffe. Dymunwn flwyddyn newydd dda i chi. Roeddem yn falch o gael croesawu Joy i’n heglwys fore Sul, 30 Rhagfyr ar ôl iddi fod yn Ysbyty Gwynedd yn cael triniaeth i’w hysgwydd yn ddiweddar.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Richard a Giorgia Douglas Pennant ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab bach i Pamela Douglas-Pennant a’i gŵr Fares Shabam ar ddydd Sadwrn, 22 Rhagfyr. Croeso mawr i Aidam Shabam Douglas-Pennant. Llongyfarchiadau i James ac Edmund hefyd ar enedigaeth eu nai a’u gor-nai bach. Byddant yn reit brysur yn magu rwan!

Gwasanaeth Naw Llith a Charolau

Yn Eglwys Sant Tegai ar nos Sul 23 Rhagfyr, cynhaliwyd gwasanaeth Naw Llith a Charolau. Arweinwyd y gwasanaeth gan y Parchedig John Matthews gyda Mr Geraint Gill wrth yr organ. Diolch i bawb am gydweithio mor rhagorol yn y canu a’r darlleniadau. Ar ddiwedd y noson daeth pawb ynghyd yn y neuadd i gawl blasu gwin mwl Hefina a mins peis. Diolch i Nerys am drefnu popeth ac i ferched yr eglwys am roi help llaw iddi.

Gwasanaeth Undebol

Cynhaliwyd gwasanaeth undebol yn Eglwys Sant Tegai fore Sul, 30 Rhagfyr, gyda’r Barchedig Jennifer Wood (curad Glanogwen) yn gwasanaethu a Mr Geraint Gill wrth yr organ. Roedd yna ganu da a’r gwasanaethau yn ddymunol hefyd. Wedi’r oedfa roedd coffi, te a bisgedi ar gael yn Neuadd Talgai. Diolch unwaith eto i Nerys a’r Merched am weini arnom.

Lwc Dda

Bydd Huw Llewelyn yn dechrau ei swydd newydd fel athro ym Mae Colwyn y tymor hwn. Hwyl fawr iti Huw. Gobeithio iti fwynhau dy hunan yn Ffrainc dros wyliau’r Nadolig. Gyda phwy tybed? Bu Gwenan adref yn ystod yr ŵyl ond bydd yn mynd yn ôl i Montpellier ar 4 Ionawr. Mae hi wrth ei bodd yn yr ysgol a’r athrawon yn gyfeillgar iawn. Hwyl fawr, Gwenan.

Pen-blwydd

Gobeithio fod Hannah Louise wedi cael pen-blwydd hapus ar ddydd Mawrth, 8 Ionawr. Rwy’n siŵr y bydd wedi derbyn llawer iawn o gardiau a llond trol o anrhegion. Rydym wrth ein bodd yn ei gweld yn dod i’r eglwys ac yn rhoi gwên angylaid i bawb wrth fynd heibio.

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda ☐
☎ **600689**

Brysiwch Wella

Mae Miss Esme le Compte, 8 Braichmelyn, wedi cael llawdriniaeth yn yr ysbyty cyn y Nadolig. Anfonwn ein cofion ati am wellhad buan a gobeithiwn ei gweld o gwmpas yn fuan.

Penblwydd Arbennig

Dathlu pen-blwydd arbennig iawn wnaeth Mrs. Eirlys Jones, 4 Braichmelyn, ar y 1af o Ionawr. Anfonwn ein llongyfarchiadau a’n dymuniadau da ati.

Gobeithio i chi gael diwrnod i’w gofio Eirlys. Cofion annwyl iawn atoch chi a’ch priod John hefyd.

Blwyddyn newydd dda i holl drigolion yr ardal

Rhiwlas

John Huw Evans,
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ **352835**

Marwolaeth

Ar 9 Rhagfyr 2012, yn ei gartref yn Stryd Albert, Bangor Uchaf, bu farw Elfyn Hughes yn 58 mlwydd oed. Un o hogia Rhiwlas oedd Elfyn, wedi ei fagu yn 26 Bro Rhiwen, yn fab i’r diweddar William John a Nesta Hughes ac yn frawd i Ieuan. Mynychodd ysgol y pentref ac Ysgol Dyffryn Ogwen. Plymar oedd Elfyn wrth ei alwedigaeth ac roedd ei fedrusrwydd wrth y gwaith i’w briodoli i’r profiad a’r hyfforddiant a gafodd gan ei ewythr, y diweddar Alun Hughes.

Cynhaliwyd gwasanaeth ei angladd yng Nghapel Peniel, Waun Pentir, ddydd Gwener, 14 Rhagfyr, o dan ofal y Parchedig Dafydd Coetmor Williams, Rachub. Miss Iona Jones oedd wrth yr organ. Roedd maint y gynulleidfa yn dystiolaeth i boblogrwydd Elfyn, gyda nifer o’i gyfeillion o Fangor hefyd yn bresennol. Fe’i rhoddwyd i orffwys ym Mynwent Pentir.

Pan ddaeth y newydd am ei farw, y tri gair a glywyd fynychaf wrth sôn amdano oedd “hen foi iawn”, a dyna yn union beth oedd o.

Cyflwynwn gydymdeimlad diffuant i Ieuan a Donna, Elliw ac Ifan ac i’w ffrind Angela, ynghyd â holl gysylltiadau teulu Elfyn.

Y Camp

Mae’n ddiddorol sylwi fel y gall chwedloniaeth ddatblygu o gwmpas enw lle fel y mae’r wybodaeth am y fan arbennig honno yn prinhau.

Llinell yn y gerdd gan blant yr ysgol yn rhifyn Rhagfyr o Lais Ogwan ddaeth a hyn i’r meddwl – “*Y camp lle bu sŵn saethu gynt*”.

Gan fod poblogaeth y pentref wedi newid cymaint yn ystod y blynyddoedd bu lleihad yn nifer y rhai sy’n gwybod am gefndir a datblygiad y “camp” a phwrpas y safle.

Y cyfan ydoedd oedd man i storio shells a grenades llaw yn ystod rhyfel 1939-45. Amgylchynwyd rhan helaeth o dir fferm Castell gyda ffens uchel fel na allai unrhyw un gael mynediad. Cauwyd y llwybr troed a gysylltai Rhiwlas â ffordd Deiniolen yn ogystal. Gofelid am ddiogelwch y safle gan blismyn wedi eu cyflogi gan y Weinyddiaeth Awyr, dynion lleol gan fwyaf. Codwyd ystorfeydd yma ac acw ar y tir ac mae eu lloriau concrid yn dal i’w gweld mewn ambell fan o hyd. Llongyfarchiadau i’r plant am roi i ni gerdd mor ddiddorol.

Gyda llaw, mae olion ar y tir yn dangos y bu pobl yn byw a gweithio ar ran o’r camp oddeutu’r blynyddoedd 250 i 400 OC. Mae’r brif safle rhyw ddau can llath o dŷ Cae’r Mynydd i gyfeiriad Gorsaf Betrol Beran.

Mae’n syn meddwl fod pobl wedi ennill bywoliaeth ar yr union safle mor bell yn ôl.

Clwb Rhiwen

Brynhawn Iau cyn y Nadolig manteisiodd nifer o’r aelodau ar y gwahoddiad gan brifathro a disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen i de prynhawn. Darparwyd adloniant gan gôr ac offerynwyr yr ysgol. Disgyblion sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa ym maes coginio ac arlwyaeth a ddarparodd y bwyd – yn frechdannau a mins peis a theisennau. Hwy hefyd oedd yn gweini wrth y byrddau. Rhaid canmol eu hymddygiad a;u gofal o’r gwesteion.

Yn eu plith roedd ambell un o Riwlas. Diddorol oedd sylwi bod rhai ohonynt o gartrefi lle bo’r ddau riant yn ddigymraeg ond yn dymuno i’w plant gael addysg ddwyieithoig. Hwyrach eu bod yn sylweddoli bod hynny yn fanteisiol iawn pan yn ymgeisio am swyddi. Llawer o ddiolch i’r ysgol am y croeso.

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon
11 Rhydygroes, Pentir
☎ **01248 355686**

Hwylïo

Da yw clywed am Luc Sharrock yn ennill ei le yn sgwad hwylïo Gogledd Cymru ym mis Tachwedd. Mae o wrthi'n ymarfer ei sgiliau cyn mynd ati i gystadlu ym 2013 - pob lwc i chdi Luc!

Colomenod Clai

Ddaru Linda a John, Fferm Cae Ysgubor gynnal helpa colomenod clai elusennol yn ddiweddar. Yn yr hinsawdd economaidd presennol mae pob ceiniog yn cyfri ac felly rydym yn falch o'ch gweithgarwch.

Cynganeddu

Dyma bennill gynganeddol a ysgrifennodd Leah'n ddiweddar:

Gaeaf

Llygod swil sydd yn chwilio
Am hadau bychan hudol
A tew ydyw’r rhew a’i ru;
Nodau’r brain sy’n dod i’r brîg,
Nid yw’r llyn ond dŵr llonydd,
A bregus nawr yw’r brigau:
Gweler gwawr ddiflanedig.

**(Leah Huws,
Creigfryn, Pentir)**

Tregarth

Gwenda Davies,
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ **601062**

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ **600192**

Blwyddyn Newydd Dda
i bob un o drigolion Dyffryn Ogwen, gan ddymuno iechyd da i bob un ohonoch, gwaith sydd wrth eich bodd, llwyddiant academiaidd ac yn arbennig gwell tywydd yn 2013.

Penblwydd arbennig
Ar Ragfyr 6 dathlodd Mrs Elin Pritchard, Llety, Sling, ei phenblwydd yn 80 mlwydd oed. Mae’r holl deulu am ei llongyfarch ac felly ninnau drigolion y pentref a’r ardal gyfan. Daeth ei mab, Glyn, adre yn arbennig o’r Unol Daleithiau ar gyfer y dathliad gan roi syrpreis hyfryd i Elin. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da am iechyd a hapusrwydd i’r dyfodol.

Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad gyda Alwena a’r holl deulu yn eu cartref newydd yn Braich, Tregarth, yn eu profedigaeth ddiweddar o golli ei mam, sef Mrs Brenda Owen, Bethesda. Yr un yw’r cydymdeimlad gyda chwaer Brenda, sef Glenys Owen a’r teulu yn Pen y Braich, Tregarth. Ar Rhagfyr 22 bu farw Mrs Carolyn Jane Pritchard yn ei chartref 8, Hen Dyrpeg, Tregarth wedi gwaeledd hir a hithau’n 64 oed. Cydymdeimlwn gyda’i phriod Maldwyn a’r teulu yn eu hiraeth.

Diolch
Dymuna Maldwyn Pritchard, 8 Hundurnpike, Tregarth ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddo yn ei brofedigaeth ddiweddar o golli ei wraig Carolyn, ac am bob cyfraniad ariannol a wnaethpwyd er cof amdani. Bydd yr arian yn mynd tuag at Uned Dydd, Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Merched y Wawr, Cangen Tregarth
Dathlodd aelodau’r gangen y Nadolig gyda phryd hyfryd o fwyd yn ngwesty Abbeyfield, yn Nhalybont ar Ragfyr 3. Roedd y noson wedi ei threfnu gan Beryl Hughes a Carys Williams ac roedd yn dda gweld cymaint o aelodau wedi dod ynghyd i wledda ! Diolchwyd i’r trefnwyr am yr holl baratoi manwl a chelfydd gan Mary Jones ac eiliwyd gan Alwena Puw. Ar Ionawr 7 bydd y cyfarfodydd yn ailgychwyn wedi seibiant y Nadolig a thestun y noson fydd ‘Talwrn Gwahanol’ !! . Croeso cynnes iawn i’r holl aelodau ac yn arbennig i aelodau newydd yn Festri Capel Shiloh am 7 o’r gloch.

Cynhelir cyfarfod Mis Chwefror ar Chwefror 4 pan ddaw John Gruffydd Jones, Abergele, i siarad ar y testun ‘Y Dyn wnaeth greu Co Bach’. Mi ddylai fod yn chwip o noson. Dewch yn eich lluoedd.

Profedigaeth
Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant gyda theulu Buddug Pleasant, 2 Bro Syr Ifor, fu farw ar Ragfyr 22 , yn Ysbyty Gwynedd, Bangor a hithau’n 82 mlwydd oed. Bu ei hangladd yn Eglwys y Santes Fair, Y Gelli, Dydd

‘O’r ochor arall’

I unrhyw un sydd heb glywed yn barod am hunangofiant un o hogia’r pentre, wel mynnwch gopi yn ddioed. Ia, hunangofiant Neil ‘Maffia’ Williams, Craig y Pandy, Tregarth, ydi ‘O’r ochor arall, ac mae o’n werth ei ddarllen. Ella bod eich hanes chi yno !!

Mae’n ddifyr 1a hwyliog. Mae’n adrodd hanes un o grwpiau pop mwyaf dylanwadol fu yng Nghymru erioed. Mae’n ffraeth a dadlennol ! Mae’n sôn llawer am gyfoedion ysgol ym Modfeurig a Dyffryn Ogwen. Mae’n sgwennu’n ddifyr a gonest am deulu ac am droeon trwstan hogyn llawn direidi ac anturus.

Unwaith yr ewch ati i’w ddarllen mae’n anodd, anodd ei roi i lawr. Brysiwch am y siop lyfrau agosaf. Wnewch chi ddim difaru.

Eglwys y Santes Fair

Bedydd
Pnawn Sul, 9 Ragfyr, bedyddiwyd Ithel Noah, mab bach Mr a Mrs Stephen Jones, Tregarth, gan y Parchedig John Mathews.

Clwb Cant Y Gelli – Rhagfyr
£20 - 66 - Keith Irons
£10 - 168 - Viv Williams
£10 - 96 - Laura Jones
£ 5 - 46 - Mair Griffiths

Bonws Nadolig - £25 - Paul Smith (25)

Capel Shiloh

Gwasanaethau Capel Shiloh am yr wythnosau nesa.
Ysgol Sul am 10.30 bob bore Sul Gwasanaethau’r hwyr 5.00 pm

Ionawr 13 Parchedig Harri Owain Jones, Llamfairpwll
Ionawr 20 Parchedig Philip Barnett, Degannwy
Ionawr 27 Islwyn Hughes, Llangoed
Chwefror 3 Parchedig Gwynfor Williams
Chwefror 10 Diacon Stephen Roe, Porthaethwy
Chwefror 17 Parchedig John Gwilym Jones, Peniel, Caerfyrddin
Chwefror 24 Parchedig W.R Williams, Y Felinheli

Oedfaon y Nadolig yn Shiloh
Pnawn Sul, Rhagfyr 16, cafwyd oedfa Nadolig wedi’i threfnu gan aelodau’r Ysgol Sul gyda help gan rai o’r rhieni. Fel arfer roedd y plantos ar eu gorau yn cyflwyno eu fersiwn hwy o wyrth y Nadolig cyntaf ym Methlehem.



Angylion Shiloh, sef Nel Mair, Gwenno Roberts, Cerys Elen, Beca Dafydd ac Ela Dafydd

Y bugeiliad gychwynodd yr hanes ac roedd y ddwy fugeiles a’r un bugail yn mynnu sylw a chafwyd unawd hyfryd gan Bugail 2 ,sef Aziliz. Wedyn daeth y fflyd o angylion i’r pulpud ac roeddau nhw yn cyflwyno eu neges yn glir a gloyw i’r bugeiliaid, a’u siarsio i fynd ar râs i’r stabal i weld y baban.



Un brenin, sef Caleb Lleu, a thair brenhines ac un o’r rhoddion, sef cath fach - Shwnamis Evans, Elliw Gwen, Myfi Celyn a Gwenda Sanderson

Cafwyd unawd hyfryd gan un o’r angylion , sef Cerys Elen. Yn y stabal roedd Mair a Joseff, sef Hannah Williams a Morus Sanderson yn gofalu’n dyner am y baban Iesu. Cychwynnodd pedwar o ddoethion o’r Dwyrain, sef un Brenin a thair Brenhines gan ddod ag anrhegion gyda hwy. Doedd gan y bedwaredd Frenhines ddim anrheg ar gyfer y baban ond yn ystod y daith daeth o hyd i gath fach ar goll yn yr anialwch a phenderfynodd ei rhoi yn anrheg i’r baban. Rhoddodd Joseff enw i’r gath fach, sef Gobaith. [Cath fach oedd Elliw Gwen am fod yn y ddrama ac felly cafodd ei dymuniad !]

Diolch i bob un o’r aelodau am eu gwaith caled a gwefreiddiol ac i’r rhieni am fod



Mair a Joseff yn Shiloh, sef Hannah Williams a Morus Sanderson

mor barod i gymryd rhan yn y Gwasanaeth Nadolig. Yn dilyn y gwasanaeth trefnwyd parti Nadolig i bawb oedd yn bresennol yn yr oedfa a daeth Siôn Corn yn ôl ei arfer blynyddol i rannu anrhegion i’r plant a’r ieuenctid. Diolch eto i rieni’r Ysgol Sul am y wledd ragorol.

Nos Sul, Rhagfyr 23, cafwyd oedfa o ddarlleniadau a charolau wedi ei threfnu gan Eirwen a Wyn Williams, Tyddyn Dicwm, gyda rhai o aelodau Shiloh yn cymryd rhan. Cafwyd oedfa fendithiol oedd yn ein paratoi at ddathlu’r gwir Nadolig. Diolch i’r ddau am eu trefniadau trylwyr.

Ar Noswyl y Nadolig, cafwyd oedfa yng nghwmni’r Parchedig Gwynfor Williams a Ficer Eglwys y Gelli , sef Y Parchedig John Mathews. Yn ystod y gwasanaeth bu’r Sacrament o Swper yr Arglwydd. Cafwyd cymorth Mr John Roberts, Bethesda, y Parch. Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid a Miss Brenda Hughes, Bethesda, hefyd yn y Gwasanaeth.

Glasinfryn Caerhun

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasinfryn,
Bangor LL57 4UP
01248 351067
Marred567@btinternet.com

Cyfarchion
Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion Glasinfryn, Waen Wen a Chaerhun. Cofiwch gysylltu yn ystod y flwyddyn os oes gennych unrhyw newyddion. Mae'n dda clywed gennych bob amser. Y dyddiad pwysig i'w gofio ar gyfer derbyn newyddion yw'r dydd Mercher cyntaf ym mhob mis.

Gwellhad Buan
Dymuniadau gorau i Cadi Griffith, Bryn Gwredog Isaf, am wellhad buan ar ôl iddi dorri ei choes yn iard yr ysgol bythefnos cyn y Nadolig. Mae Cadi wedi bod mewn plaster o'i chlun i'w bodiau throed ers pedair wythnos ac wedi bod yn hogan dda iawn yn dygymod â'r anhwylder. Mae pawb yn Waen Wen yn cofio atat, Cadi !!

Profedigaeth
Bu farw Mrs Margaret McSweeney, Tyddyn y Waun, Waen Wen ar 26 Ragfyr. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei gŵr, John, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Bingo Nadolig
Cynhaliwyd Bingo Nadolig ar 7 Ragfyr yn y Ganolfan gyda'r elw yn mynd tuag at yr elusen Help for Heroes. Casglwyd £96. Llauer o ddiolch i bawb am bob cyfraniad tuag at y Bingo, boed yn ariannol neu gyda gwobrau a raffl drwy'r flwyddyn. Ni fydd Bingo am y ddeufis nesaf, nes mae'r tywydd yn gwella !!

Clwb Cant y Ganolfan - Rhagfyr
£20 - 106 - Mair Parry
£10 - 41 - Alwen Gardner
£ 5 - 98 - Fiona Davies
Bonws Nadolig -
£20 - 16 Rhiannon Hughes

Sefydliad y Merched
Cawsom ddathlu ein 'Dolig ym Mhlas Menai unwaith eto. Roedd y noson wedi ei threfnu gan Mair. 'Roedd y bwyd a'r cwmni yn grêt a chafwyd noson bleserus iawn. Diolchwyd i'r swyddogion gan Mrs Ingrid Farrer am eu gwaith yn ystod y flwyddyn, yn enwedig i Mrs Elizabeth Evans am ei gwaith trylwyr fel trysorydd. Mae Elizabeth yn ymddeol o'r swydd ar ôl 13 mlynedd ac mae ein dyled yn fawr iddi. Diolch o galon, Elizabeth.

Un arall o'r sefydliad sydd yn weithgar dros ben yw Mrs Mair Griffiths sydd yn trefnu ein nosweithiau, ein triapiau, teithiau cerdded ac ymweliadau â Venue

Cymru yn Llandudno. Mae Mair yn gofalu amdanom ac yr ydym yn diolch iddi o waelod calon.

Braf oedd deall fod Mair, sef merch Mrs Beryl Williams, wedi gwella ar ôl triniaeth go hir ac erbyn hyn yn ôl yn ei gwaith. Da iawn a dymuniadau gorau iddi.

Edrychwn ymlaen at ein cyfarfod cyntaf yn y flwyddyn newydd ac mae croeso bob amser i aelodau newydd.

Blwyddyn Newydd Dda !

Mynydd Llandygái

Theta Owen.
Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygai.
☎ 600744

Ffair Nadolig
Cynhaliwyd Ffair Nadolig yn y Neuadd Goffa gyda stondinau nwyddau o bob math, gwîn, mins peis, te a choffi. Noson lewyrchus iawn. Diolch am eich cefnogaeth.

Profedigaeth
Trist iawn oedd clywed y newydd drwg fod Mr. Charles Emblem, 12 Gefnan, wedi marw fore'r Nadolig yng nghartref ei fab yn Norfolk. Anfonwn ein cydymdeimlad at Clive a Caroline, Lesley a'r teulu, a Duncan. Bydd colled fawr ar ei ôl.

Geni
Llongyfarchiadau i Charlotte a Shaun, Bryn Gwalchmai, ar enedigaeth merch fach, Esme. Dymuniadau gorau hefyd i Peter a Lindsey ar ddod yn daid a nain. Pob hapusrwydd i chi fel teulu.

Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

Ion. 20:
9.45 Boreol Weddi

Ion. 27:
9.45 Cymun Bendigaidd

Chwef. 3:
9.45 Gwasanaeth Teuluol

Chwef. 10:
9.45 Cymun Teuluol

Chwef. 17:
9.45 Boreol Weddi

Braf oedd gweld cynifer o bobl yn ein gwasanaethau dros yr Wyl. Diolchwn i'r Parchedigion Jenny Hood a Christina McCrea am eu gwaith yn paratoi'r gwasanaethau.

Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb sy'n sâl ar hyn o bryd a dymunwn wellhad buan i chi oll.

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs. Glenys Price Roberts, Llanfairfechan, gwraig ffyddlon y Parchedig Merfyn Price Roberts (cyn ficer Eglwys St. Ann) a mam annwyl Gerallt. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf atynt ill dau

Cyngor Cymuned Bethesda



Enillydd y wobwr gyntaf am y ffenestr Nadolig orau oedd Siop Lewis. Dyma'r trydydd tro iddynt ennill, ac yn ôl y llun mae Rita Lewis yn hapus iawn wrth iddi dderbyn y darian a'r wobwr ariannol oddi wrth y Cyngorydd Mary Edwards, Cadeirydd y Cyngor.



Aeth yr ail wobwr i Winnie Leung, siop Blodau Hyfryd.

Siop Anne Jeanette gipiodd y drydedd wobwr. Llongyfarchiadau i'r tair siop a diolch i'r siopau eraill am gymeryd rhan ac am gyfrannu tuag at harddu'r ardal dros dymor y Nadolig.

Contractwyr Trydanol Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Croesair Ionawr 2013

AR DRAWS

1. “Anodd tynnu --- oddi ar ei dylwyth”. (dihareb) (3)
3. Cicio sodlau. (8)
9. Tric budur ! (5)
10. Taw ! Garw yw gwardio. (7)
11. O’i ôl mae Ian yn hogyn i’ m chwaer. (3)
13. Pan red y Camwy pob sut mae’n afon gwerth chweil. (9)
14. Galluog. (6)
16. Yr un m-wy-af o’i fath yn y byd. (6)
18. Ar lafar, mae dyn efo un o’r rhain yn dipyn o leidr. (3,6)
20. Bwyd ceirch i frecwast. (3)
22. Byddwch ofalus wrth gerdded, mae ffyrdd culion cefn gwlad fel hyn. (7)
23. Nid dyma’r amser i fwyta 20 Ar Draws. Mae’n rhy hwyr o lawer. (5)
25. Yr amser o gwmpas 23 Ar Draws. (4’1,3)
26. Ail afon hiraf Cymru, a rhannau ohoni yn ffin rhyngom â Lloegr. (3)

12. Lle i feddyliau na wyddoch ddim amdanynt. (9)
14. Dafad grwydrol enwoca’r Beibl. (7)
15. Hanner cant yn araf, af o’r sw’n amhersain. (7)
17. Os yw’r awel o’r de, fel hyn y mae’n drewi. (6)
19. Rhoi tasg bleserus i ddrysu’r ci defaid ! (4)
21. Os ewch i rwyd y plismyn am or-yrru. (5)
24. Un defnyddiol i aderyn a thebot. (3)

ATEBION CROESAIR RHAGFYR 2012


AR DRAWS 1. Pei; 3. Pla; 5. Olau; 8. Y crud; 9. Wynebau; 10. Arglwydd; 12. Wraig; 13. Nam; 15. Cigydd; 17. Fry; 19. Celyn; 20. Doethion; 23. Anifail; 24. Lliaws; 25. Treth; 26. Glo; 27. Cau.

I LAWR 1. Plygain; 2. Iorwg; 3. Pydew; 4. Arwydd; 5. O’r newydd; 6. Arbrawf; 7. Euog; 11. Yli; 14. Melchior; 15. Canwaith; 16. Yno; 18. Ymnesau; 19. Cnau; 20. Dolig; 21. Eillio; 22. Ifanc.

Dyna flwyddyn arall wedi dod i ben, a diolch i rai ohonoch am eich geiriau caredig a’ch dymuniadau da. Mae’r croesair wedi dal ei dir yn eithaf da, a thra bo’r ffyddloniaid yn parhau i gefnogi mi ddaliaf innau ati gan obeithio denu croeseirwyr newydd. Pencampwyr 2012 oedd dwy wraig unwaith eto, sef Dulcie Roberts, Tregarth a Jean Vaughan Jones, Rhiwlas, y ddwy wedi cael pob un o groeseiriau 2012 yn hollol gywir.

I LAWR

1. Faint o dŷ bach twt sydd gen i yn ôl y gân werin ? (5)
2. Tad Sem, Cham a Jaffeth. (3)
4. Moes gi fel un hwn i dynnu sled. (6)
5. Gwraig y dyn pwysicaf yn y dref. (1,6)
6. Hawliau sydd deg. (9)
7. Gŵr yw senor yn Sbaen, ond yn ddryslud iawn mae hefyd yn ferch o Sgandinafia. (7)
8. Mae’n edrych ar ôl buddiannau athrawon Cymru. (1,1,1,1)



Ardderchog yn wir. Yr un a ddaeth allan o’r het gyntaf i ennill gwobr mis Rhagfyr oedd Donna Coleby, 39 Belgrave Avenue, Penwortham, Preston. PR1 0BH. Da iawn chi. Llongyfarchiadau hefyd am atebion cywir i’r canlynol : Doris Shaw, Bangor; Karen Williams, Elfed Evans, Llanllechid; John a Meirwen Hughes, Abergele; Anne Smith, Rita Bullock, Bethesda; Margaret Jones, Dilys Parry, Jean Vaughan Jones, Heulwen Evans, Rhiwlas; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Gareth W. Jones, Bow Street; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Jean Hughes, Talybont; E. E. Roberts, Llanberis; Gareth Oliver, Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Tregarth.

Atebion erbyn dydd Mercher 30 Ionawr i ‘Croesair Ionawr’, Bron Eryri, 12 Gardeddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

Nyth y Gân

Syr T.H. Parry-Williams

Yn hedd yr unigeddau y cafodd
Ein cyfaill drysorau;
Hon oedd bro’r blynyddoedd brau
I gawr ddeori’r geiriau.

Lliwiau’r Tymhorau

Pob tymor sydd â’i wisg ei hun
I’w dangos trwy y flwyddyn,
Ac anodd dewis ambell dro
Pa un sy’n gwisgo’r ffefryn.

Gwisg werdd sy gan y gwanwyn mwyn
I wisgo’r llawr a llenwi’r llwyn,
Mor hael yw’r teiliwr hwn yn wir
A chroeso gaiff hyd wyneb tir.

Mae myrdd o liwiau ’ngwisg yr haf
Ac yno mae trwy’r tywydd braf
Yn eu harddangos mewn sawl gardd
Ymysg y twf o flodau hardd.

Pan ddaw yr hydref ar ei daith
Fe wisga hwn ei siaced fraith;
Un wych yw hi hyd ddail y coed
Cyn syrthio i lawr o dan ein troed.

Mae gwisg y gaeaf yn un lom
All fod ar brydiau’n garthen drom
Sy’n troi ein byd yn hardd a gwyn
A’n cadw tani fel y myn.

Y Gwladgarwr

Mawr yw’r gwerth sy’n y perthyn, i hil
hen
Ac i wlad y delyn;
Hidiaf am iaith a’i nodyn,
A’th nod di yw gwarchod hyn.

Nansi Richards (Telynores Maldwyn)

Dan ei dwylaw alawon a dynnwyd
O’i henaid a’i chalon;
Ym mro y taro tirion
Eco’r tant oedd cariad hon.

Yr Archfarchnadoedd a’r Siop Fach

Yn orlawn gwelwn silffoedd
Ond llwgu mae y miloedd
O’r rheini sydd ar draws y môr
Heb unrhyw stôr ers oesoedd.

Mor falch a fyddai’r tlodion
O dderbyn y cynhyrchion;
I’r miloedd hynny drwy y byd
Mae’r drefn o hyd yn greulon.

Y tils drwy’r dydd sy’n canu,
Sul, gŵyl a gwaith cawn brynu
A gwthio’r troli yno wnawn
A honno’n llawn ’r ôl blysu.

Maent oeraidd, fecanyddol
A hollol anghymdogol,
Ceir dewis hynod ymhob stôr
I wagio’r pwrw teuluol.

Chwith meddwl am ’r hen gyfnod
A’r siop fach gornel hynod,
Dros gownter hon bu newid pres
A’r cynnes, difyr draford.

Dafydd Morris

Y Cenhedloedd Bychain

Mae llif y lleiafrifoedd – yn llanw
Sy’n llenwi aberoedd;
Onid ias adnabod oedd
Yr ias sy’n clymu’r oesoedd.

Henaint

Nid pwdr fo nwyd pob hydref –
ddiwetydd
A etyb hen dangnef;
Tân rhwng dau a nwydau nef,
Hydref noswyl mynd adref.

Colli Tir (yng ngoleuni Cyfrifiad 2011)

Ar ruddin ein gwareiddiad – mae
gwenwyn,
Mae gweniaith yr anfad;
Dawn torf y twyll dwyn treftad,
Dwyn bro bur dawn barbariad.

Goronwy Wyn Owen

Pesda Roc

Cynhaliwyd gig ar y cyd rhwng
criw Nyth (Caerdydd) a Pesda
Roc ar yr 28ain o Ragfyr.
Profwyd fod yna unwaith eto
ffrwd newydd o gerddoriaeth
Gymraeg amgen yn byrlymu i
amlygrwydd. Roedd y grwpiau
oedd yn chwarae yn cynnwys
Sen Segur, Afal Drwg Efa, Mr
Huw ac Yr Oen. Diolch i bawb
am eich cefnogaeth, Pesda Roc

SDWNSH ’DOLIG PESDA ROC

Gyda Jac y Jwc, Sion Corn ac actorion y gyfres Rownd a Rownd i gyd o dan yr un to – Neuadd Ogwen, Bethesda oedd y lle i fod ar brynhawn Sadwrn yr 8fed o Ragfyr! Daeth ychydig o dan 300 o blant a rhieni ynghyd i fwynhau’r prynhawn llwyddiannus a drefnwyd gan is-bwyllgor bach o rieni dan faner Pesda Roc. Yn ogystal â sioe wefreiddiol gan Jac y Jwc, bu’r plant yn cael eu diddanu gan yr actoresau Angharad Llwyd a Lisa Jen Brown a fu’n canu efo’r plant wrth iddynt aros i ymweld â Sion Corn yn ei ogof.

Bwriad SdwnsH ‘Dolig oedd cynnig prynhawn o hwyl i blant y Dyffryn i ddathlu’r Nadolig gyda’r pwyslais ar weithgareddau – canu, dawnsio, gwrandao ar stori, gwneud crefftiau – a hynny i gyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Daeth y prynhawn i ben â disgo Cymraeg unigryw – cyfuniad o ganeuon Cyw, Meic Stevens, Rapskaliwn, Cwm Rhyd y Rhosyn, Mr Huw a llawer mwy!

Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol a rhannwyd yr elw gyda Chylch Meithrin Cefnfaes a dderbyniodd £300 yn rhodd gan Pesda Roc yn dilyn y diwrnod. Hoffai’r Pwyllgor gymryd y cyfle i ddiolch i bawb a fynychodd ac hefyd am gefnogaeth y canlynol: Idris Jac y Jwc, Popty Cae Groes, cwmni Rondo ac actorion Rownd a Rownd, y mudiad TWF a’r holl wirfoddolwyr a helpodd i drefnu’r digwyddiad.

OWEN'S TREGARTH**Cludiant Preifat a Bws Mini**

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260

07761619475

pandv.owen@btinternet.com

Tony Davies
Plymio a Gwresogi

Tŷ Capel Peniel, Llanllechid
Rhif Corgi 190913

☎ Symudol 078184 10640

☎ 01248 601 466

WU SHU KWAN**Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)**

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

Tudur Owen, Roberts, Glynne
a'u cwmni


DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG

☎
BETHESDA
01248 600171
torg@hotmail.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
AM DDIM

EWYLLYSIAU A
PHROFIANT

SYMUD Tŷ

MODURDY
FFRYDLAS


Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda

♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Gorsaf betrol
BERAN
 Deiniolen
 Ffôn: Llanberis 871521
 Ar agor bob dydd 24/7

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau newydd
Cardiau pen-blwydd • Melysion
Tocynnau loteri
Gwasanaeth PAYPOINT ar gyfer
trydan, nwy, ffonau symudol,
trwyddedau teledu ayyb

Malinda Hayward
(Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

L. Sturrs
a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953
Ffacs: 602571
lsturss@googlemail.com

“J.R.”**SGAFFALDWYR**

Yr Iard, Ffordd Stesion
Bethesda

Ffôn: (01248) 601754

Dyma ni - sgaffaldwyr o fri

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI
2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Busnesau Lleol ym 1966

Ymhlith fy nhoriadau papur-newydd (gydag ambell bapur cyfan yn eu plith), mae Atodiad i'r North Wales Chronicle, Mawrth 4, 1966, dan y teitl 'Special – Our Town – Supplement', gyda phrif erthygl dan y teitl 'Bethesda – A prophecy that came true' sy'n rhoi amlinelliad cryno o hanes a chefnidir yr ardal cyn troi at sefyllfa'r pentref ym 1966 a'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol. 'The main street', meddir, 'is lined on both sides with shops and cafés ...' ac eir ymlaen i roi darlun addawol iawn o ddatblygiad yr ardal yn y dyfodol. Mae hysbysebion niferus yn yr Atodiad a gobeithiaf y bydd nodi rhai ohonynt o ddiddordeb i ddarllenwyr Llais Ogwan, gan ddwyn atgofion i ambell un ac ysgogi eraill i gymharu sut yr oedd pethau ym Methesda bron i hanner can mlynedd yn ôl ochr yn ochr â'r sefyllfa heddiw. Wrth gwrs, mae'n rhaid cofio bod nifer o siopau a busnesau eraill nad oeddent wedi gosod hysbyseb yn y papur-newydd – mae'n siŵr fod ambell un o'r rheini'n dŵad i gof rhai ohonom hefyd.

Dan 'Gwynedd Enterprises, cawn 'London House', 59 Stryd Fawr (yn gwerthu amrywiaeth o deganau a llawer mwy), a Pennant House, 49 Stryd Fawr (yn gwerthu antics a hen bethau o bob math). Ac roedd rhes o fusnesau eraill ar y Stryd Fawr (ond, gwaetha'r modd, ni chynhwysai bob un ohonynt rif yr eiddo):

Austin's Supper Bar, 5 a 7 Stryd Fawr;
Barnetts (crydd a siop gwerthu esgidiau, etc.);
Alfred C. Jones 24/26 Stryd Fawr (dodrefn ac ati);
Arfor Hughes, 33 Stryd Fawr, 'Snack Bar – for a good cup of tea'. Also Taxi Service';
Britannia Café, 'Fresh Fish, Frozen Foods, Fish and Chip Suppers';
Roberts Fruit Stores, 36 Stryd Fawr;
Springford (Wm Evans and Sons), 42 Stryd Fawr (papur wal, paent, offer garddio a llawer mwy);
William Parry (Perchnogion: R. Roberts ac S. Morgan), 50 Stryd Fawr: 'Meat Purveyors – One Quality Only – The Best';
Perfecta Cleaners, 'Dry Cleaners and Quailty Launderers';
Roberts, Caxton House, 'Newsagent, Staionery, Tobacconist, Toys, Greeting Cards';
J. & J. Winstone, 61 Stryd Fawr (setiau teledu, setiau radio, offer trydan, a gwasanaeth trwsio);
James Williams & Son, Ogwen Stores (Pysgod, ffrwythau, blodau, ac ati);
Siop Tan Graig (Price Roberts);
W. & S. Williams, Lorne House – papurau-newydd, cardiau cyfarch, llyfrau Cymraeg, teganau ac ati;
E. T. Hughes ('Pork Butcher – Family Butcher'), 79 Stryd Fawr;
Haworth, 76 Stryd Fawr ('High Class Millinery & Gowns ... Hosiery');
Phillipson's, 77 Stryd Fawr, 'Fruiterers and House Plant Specialists, Bouquets, Wreaths', etc.

Ceir yr hysbysebion hyn ar gyfer busnesau yn Victoria Place:
Ashton Price Davies (Perchennog: R. J. Jones), 9 Victoria Place, 'Purveyor of High Class Meat';
Treflan 1, 2, 3, 4 (Victoria Place) – 'Grocers, Bakers and Confectioners';
Griffiths, 4 Victoria Place 'The Small Shop with a BIG selection of Good Quality Sweets and Chocolates, Cigarettes and Tobacco';
W. Edwin Jones, 3 Victoria Place 'High Class Grocer and Fruiterer' a gaeodd ym mis Mawrth eleni);
Café, 'Morning coffee, lunches, afternoon teas ...'.

Hysbysebwyd y busnesau hyn yn Rhes Ogwen:
Letty's, 3 a 4 Rhes Ogwen (dillad plant a dillad merched, bagiau, ac felly yn y blaen);
Arvon's 'The Climbers' Shop' (lle'r oedd siop y 'Bee Hive' ar un adeg)

Yn Rhes Penrhyn, gyferbyn â lle mae Londis heddiw, cafwyd hysbysebion gan:
G. Jones ('General Iremonger, Monumental Work');
M. & M. Hughes 7 Penrhyn Terrace, 'Newsagents and Tobacconist', cardiau cyfarch, etc.

On'd oedd Stryd Fawr ein pentra'n ferw o fywyd ryw hanner can mlynedd yn ôl a'r masnachwyr a'r cwsmeriaid fel ei gilydd yn rhan annatod o un gymdeithas gynnes, glòs, gyfeillgar.

Taith o Amgylch
Mynwentydd Dyffryn Ogwen
gan Andre Lomozik
Rhan 6
Eglwys Crist, Glanogwen, Bethesda

Yn y fynwent yma mae bedd R. S. Hughes, a fu farw yn 38 mlwydd oed. Ganwyd ar Orffennaf 14eg 1855, yn fab i Benjamin ac Ann Samuel Hughes.

Cadw siop nwyddau haearn gyferbyn a chloc y dref yn Aberystwyth oedd galwedigaeth ei dad. Roedd Richard Samuel yn alluog iawn ac yn gallu chwarae'r piano yn pump oed. Yn eisteddfod 1865 enillodd ar ganu'r piano. Aeth i'r Royal Academy, Llundain yn 1870 am gwrs o addysg ac yno y bu am tua blwyddyn a hanner cyn dychwelyd i Aberystwyth am gyfnod byr. Daeth i Fangor i gynorthwyo Dr. Roland Rogers, organydd yr eglwys gadeiriol.

Symudodd yn ôl i Aberystwyth unwaith eto am gyfnod byr lle cyhoeddodd ei gân gyntaf, 'Wyt ti'n cofio'r lloer yn codi'. Ymlaen i Lundain wedyn hyd nes iddo gael galwad i fod yn organydd capel Bethesda, yn y flwyddyn 1887. Efe oedd cân-gyfansoddwr mwyaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Enillodd yn eisteddfod Wrecsam yn 1876 am gyfansoddi pedwarawd llinynnol, ac am gainc i leisïau meibion yn 1888.

Ym mynwent Eglwys Crist Glanogwen cawn hefyd fedd George Greasley. Pwy oedd George Greasley meddach chi wrth eich hunain? Cafwyd hyd i gorff George ger Llyn Ogwen ar yr 11fed o Awst 1898. Roedd wedi disgyn oddi ar ei feic a bu farw yn y fan a'r lle. Daethpwyd a'i gorff i lawr i Fethesda a gwnaed pob ymdrech i ddarganfod pwy ydoedd trwy hysbysebu yn y papurau dyddiol gan roi disgrifiad ohono a'r dillad a wisgai, Ni ddaeth unrhyw ymateb i'r ceisiadau ac felly claddwyd George Greasley ym mynwent Eglwys Crist Glanogwen ar draul trigolion y pentref.

Rhai wythnosau yn ddiweddarach, pan glywsant am y ddamwain, daeth ei deulu i Fethesda i weld lle claddwyd eu mab. Mae yn ymddangos mai ar ei wyliau yn seiclo o gwmpas Cymru oedd George ac roedd ei deulu yn byw yn Birmingham, Roeddynt yn ddolchgar iawn i drigolion Bethesda am eu caredigrwydd yn gladdu eu mab mewn ffordd Gristionogol heb wybod pwy oedd. 'The parents wish to place on record the Christian spirit of the inhabitants of Bethesda in burying their son before he was identified'.

Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr !

Y Douglas Arms
 * Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
 * Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriau Agor
 Llun – Gwener: 6.00 - 11.00
 Sadwrn: 3.30 – 12.00
 Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00
01248 600219
 www.douglas-arms-bethesda
 Cewch groeso cynnes gan
 Gwyn, Christine a Geoffrey


Siop Trin Gwallt a Harddwch
 Newydd agor ym Methesda ym mis Medi
 Yn arbenigo mewn trin gwallt
 merched, dynion a phlant.
 Cynghori, gosod a thorri wigiau
 Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
 (rasal "cut throat")
 Mwy o fanylion gan Wendy ar 07748206817

Pob math o waith trydanol
Huw Jones
Ymgymmerwr Trydanol
 Trydanwr cymwysedig gyda
 phrofiad diwydiannol
 Y Wern, Gerlan, Bethesda
 Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

CAFFI COED Y BRENIN
 1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer
 partiön o bob math -
 plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Cacennau ar gyfer pob achlysur
 e.e. priodas neu ben-blwydd
Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)
 Rydym yn croesawu partiön
 o bob math – dathlu pen-blwydd
 ac achlysuron arbennig eraill.
 Beth am eich Parti Nadolig?
Ffoniwch
01248 602550
 e-bost : karena@agoriad.org.uk

Gallai eich hysbyseb
Chi
fod yma
Cysylltwch â
Neville Hughes 600853

LONDIS BETHESDA
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
 gyda'r pwyslais ar y cwsmer
 Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garseddwen
Bethesda
Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

Oriel Cwm
 Cwm y Glo, Caernarfon
 Gwasanaeth fframio lluniau o
 bob math ar gael ar y safle
 Prisiau rhesymol
 Arddangosfa gan artistiaid lleol
 Ffôn / Ffacs 01286 870882
RICHARD S. HUMPHREYS


STEPHEN JONES

TREFNYDD ANGLADDAU

Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd
Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda
Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001
Gwasanaeth personol ddydd a nos

JOHN ROBERTS
Paentiwr
Papurwr
Teilsiwyr

Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045	Cludiant am ddim yn lleol	Mynytho 01758 730768
Caernarfon 01286 676070	Stoc helaeth ac amrywiol	LLanrwst 01492 640794
Llangefni 01248 751677	Croeso i gyfrifon masnachol	Siop yn 01492 640794
	Staff cyfeillgar a phroffesiynol	Llanrwst

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y
Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen
Nos Lun 11 Chwefror 2013
am 7.00 pm
YN FESTRI CAPEL JERUSALEM, BETHESDA

Peredur Hughes
Iardiau'r Llechi

£1.50 wrth y drws neu am ddim i aelodau



Dyddiadau'r Gaeaf
Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol
Yn Ystafell Fawr
Capel Jerusalem
(yn ymyl Spar)

2013
9 Chwefror
9 Mawrth

www.facebook.com/marchnad-cynnyrch-lleol-ogwen-local-produce-market

Canolfan Cefnfaes BETHESDA GYRFA CHWIST

Ionawr 22 a 29
Chwefror 12 a 26

am 7 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

NEUADD OGWEN, BETHESDA

BOREAU COFFI



19 Ionawr: Mini Rygbi, Bethesda
26 Ionawr: Cyfeillion Ysgol Abercaseg
02 Chwefror: S.A.N.D.S.
09 Chwefror: Eglwys Glanogwen
16 Chwefror: Neuadd Talgai

(Bob bore Sadwrn am 10.00 o'r gloch)

Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Noson Dwynwen



yng Nghlwb Rygbi Bethesda

7.30 Nos Wener
25^{ain} Ionawr 2013

Cerddoriaeth gan
Gwenno Roberts,
Stephen Rees a Paul Airey

Tocynnau: £5 (yn cynnwys cawl)
gan Neville 600853, Mary 600274 a Linda 601526

Cymorth Cristnogol Dyffryn Ogwen

CYFARFOD PWYSIG

i holl gasglyddion yr ardal
(yn cynnwys Bethesda, Gerlan,
Rachub, Llanllechid, Talybont,
Llandygai, Tregarth, Rhiwlas,
Mynydd Llandygai)

yn
Festri Jerusalem, Bethesda
Nos Fawrth, 12 Chwefror
am 7 o'r gloch

Mater Pwysig i'w Drafod
Dyfodol yr Wythnos Gasglu
yn y Dyffryn?

Taer erfynnir am eich presenoldeb

Y Chwedegau – Oeddech chi yno?

Gan fod nifer o ysgolion cynradd yn astudio hanes y 1960au mae Gwasanaeth Archifau Cyngor Gwynedd yn paratoi casgliad o adnoddau am y cyfnod. Un rhan o'r gwaith fydd cofnodi atgofion pobl. Pa effaith gafodd y chwedegau arnoch chi? Oeddech chi'n rhan o fwrwm protestiadau'r cyfnod? Gafodd Bwyell Beeching effaith ar eich ardal chi? Fuoach chi ym Mangor yn gweld y Beatles? Yn ogystal â manylu ar ddigwyddiadau penodol, y bwriad yw canolbwyntio ar fywyd pob dydd yn lleol yng Ngwynedd yn ystod y chwedegau. Bydd hyn yn cynnwys sylwi ar agweddau megis tai y cyfnod, newidiadau yn nulliau ffermio, cludiant, ysgolion, ffasiwn, siopa ac arferion amser hamdden, yn chwaraeon ac adloniant torfol.

A fydddech chi'n fodlon adrodd eich atgofion ar ffilm er mwyn rhoi'r hanes ar gof a chadw? Cysylltwch â John Dilwyn Williams, Archifdy Gwynedd ar 01286 679091 neu johndilwynwilliams@gwynedd.gov.uk

Cofiwch Brynu

Calendr Llais Ogwan

£4.00 yn y siopau lleol

O'r Cyngor

Cyngor Cymuned Llanllechid

Cyfarfod Tachwedd 2012

Croesawyd Dafydd Watts, Ynni Cymru, i'r cyfarfod er mwyn derbyn gwybodaeth am gynlluniau ynni dŵr o fewn yr ardal. Cafwyd trafodaeth ddiddorol ac fe drefnwyd iddo a'r Cynghorydd Robert Doyle i ymweld â safleoedd o fewn yr ardal er mwyn edrych ar wahanol leoliadau posib.

Y mae'r Cyngor Cymuned wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â gosod bin sbwriel ger y cae chwarae yn Nhalybont.

Nodwyd fod y sedd yn y gysgod-fan bws wedi cael ei thrwsio gan obeithio y caiff ei pharchu o hyn allan.

Derbyniwyd cais cynllunio rhif C12/1430/21/LL. Cais ar gyfer codi estyniad amrywiol Bryn y Môr, Gate House Lane, Talybont, Bangor, LL57 3YW. Penderfynwyd cefnogi'r cais.

Cyfarfod Rhagfyr 2012

Trafodwyd y difrod a achoswyd o fewn yr ardal yn dilyn y llifogydd. Roedd teimladau cryf gan y cynghorwyr am nad yw traeniau a chwteri yn cael eu clirio'n ddigon aml a bod hyn yn ychwanegu at y broblem. Nodwyd bod swm o dair miliwn o bunnau wedi cael ei glustnodi ar gyfer gwella'r broblem llifogydd ar yr A55 gan Lywodraeth Cymru. Trefnwyd cyfarfod cyhoeddus er mwyn rhoi cyfle i drigolion yr ardal holi syddogion y Cyngor Sir am y llifogydd. Bwriedir cael ail gyfarfod yn mis Mawrth.

Derbyniwyd holiadur ynglŷn â Rheoli Cŵn ar Draethau. Cytunodd Cynghorydd Karen Desch i'w gwblhau.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar y dydd Sadwrn cyntaf ym mis Rhagfyr cynhaliwyd y Ffair Nadolig flynyddol yn Neuadd Ogwen, gyda Siôn Corn, y stondinau arferol, y rhif lwcus ac araith fer gan ein cyn-aelod seneddol (Betty Williams). Cafwyd bore pleserus a gwnaed elw sylweddol at dreuliau'r gangen.

Yn ddiweddarach yn y mis cyflwynwyd tystysgrif a llythyr gan y Plaid Lafur i Mrs Glenys Roberts, 4 Hen Barc, am dros hanner can mlynedd o aelodaeth weithgar. Oherwydd hyn ni fydd angen iddi dalu tâl aelodaeth yn y dyfodol gan ei bod yn awr yn aelod anrhydeddus.

Fel ym mhob blwyddyn arall ni chynhaliwyd cyfarfod o'r gangen ym mis Rhagfyr, ond cynhelir y cyfarfod arferol yng nghanolfan y Cefnfaes am 7.30 ar 23 Ionawr.



mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

Gyrfa Newydd!

Eisiau gweithio efo plant ifanc?
Cyfle i ennill cymhwyster Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn y gweithle ynghyd "a" chael grant hyfforddi tra'n astudio.

Hyfforddiant ar gael o 1af Ebrill 2013 – 31ain Mlawrth 2014. Cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymuno yn y cynllun hyfforddi arbennig yma.

Ffonio Kerry
Arweinydd y cylch ar 07515860901

BYSUS
D. P. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Melthrin menter gymdeithasol leol

Am gymorth:
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudlad
i wirfoddoli
cysylltwch â
Mantell Gwynedd

- yn cofnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Ffôn Gofal: 01286 672626
Cemri Cylhydd: drwy Wiarad 3423272



MODURON PANDY Cyf.

Tregarth
Gwasanaeth ♦ Atgyweirio
Canolfan 'Unipart'
M.O.T.

Ffôn: 01248 600619 (dydd)

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Gallai eich hysbyseb

Chi
fod yma
Cysylltwch â
Neville Hughes 600853

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Ymgymmerwr adeiladu a gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda'r nos 602767)
Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan
Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Blodau Racca

PENISARWAUN
Planhigion gardd a basgedi crog o'r ansawdd gorau - gan hogan o Rachub

Ffôn: 01286 870605

SAMARIAID
Mac
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L. Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909



Posh Paws
Tacluso Cŵn
Busnes lleol

Prynhawniau neu Nosweithiau
4.00 - 10.00
Dydd Sul 8.00 a.m - 4.00 p.m.
Gwasanaeth casglu a danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
01248 671382 neu 07935324193
Ebo: juliaposhpaws@btinternet.com

Elwyn Jones & Co
Hefyd yn masnachu fel:
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd

-Cyfreithwyr-
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol. Gwasaneth dwyieithog personol a chyfeillgar.

Lexcel

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106	Ambwch (01407) 831777	Bentllech (01248) 852782
Caernarfon (01286) 673616	Pwllheli (01758) 703000	




Gair o’r dosbarth

Ysgol Dyffryn Ogwen

Ymweliad Blwyddyn 6

Bu disgyblion dalgylch blwyddyn 6 yma am ddiwrnod cyfan yn cael blas ar wersi ysgol uwchradd. Cawsant ddiwrnod llawn a phrysur a oedd yn cynnwys gwersi Gwyddoniaeth, Celf, Saesneg a Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Gobeithio y bydd pob un yn heidio yma i Ysgol Dyffryn Ogwen!

Taith Caerdydd



Bu holl fyfyrwyr blwyddyn 12 ar daith i Gaerdydd ar y 6ed a'r 7fed o Ragfyr. Prif bwrpas yr ymweliad oedd gwella eu dealltwriaeth o sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio, pwy sy’n ein cynrychioli a pha feysydd sydd wedi eu datganoli? Cawsant chwarae rôl Aelod Cynulliad trwy gymryd rhan mewn dadl yn Siambr Hywel (hen siambr y cynulliad) ar newid y drefn o roi organau. Bydd y ddadl yma yn cael ei chynnal go iawn yng Nghaerdydd ac yn Llundain yn y dyfodol agos.

Cafwyd cyfle hefyd i fynd ar daith o amgylch Stadiwm y Mileniwm gan weld y cyfleusterau arbennig sy’n cuddio yng nghrombil yr adeilad cyn manteisio ar y cyfle i ymweld â siop neu ddwy. Ar y ffordd adref roedd cyfle hefyd i fynd i Amgueddfa Pwl Mawr (Big Pit); profiad hynod o gael cip ar fywyd gwaith y glöwr dros y degawdau.

Cap i Gymru




Llongyfarchiadau i Mathew Buchanan, 7 Glyder, gafodd ei gyflwyno efo cap criced Cymru mewn seremoni yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Bu Mathew yn chwarae nifer o gemau i dîm dan 11 Cymru dros yr Haf gan gynnwys un yng Nghlwb Criced Bethesda. Bu ei fowlio cyflym yn arwain y tîm a’r wicedi a gymerodd yn allweddol i sawl buddugoliaeth i Gymru. Da iawn, Mathew.

Te Prynhawn

Ar brynhawn dydd Iau, 20fed o Ragfyr, bu dros gant o aelodau o gymdeithasau lleol yn yr ysgol yn derbyn lluniaeth ac adloniant gan gôr yr ysgol. Mae’r cyfan yn cael ei baratoi gan ddisgyblion blwyddyn 10 sy’n dilyn y cwrs Lletygarweh. Y disgyblion sy’n paratoi’r cyfan gan anfon y gwahoddiadau allan, gwneud y bwyd ymlaen llaw, gosod a pharatoi’r byrddau a gweini yn ystod y parti.



Derbyniwyd llu o negeseuon yn diolch i’r ysgol am y croeso. Cafwyd eitemau cerddorol hefyd gan nifer o ddisgyblion yr ysgol. Yr oedd yn braf iawn cael croesawu pawb i’r ysgol.



Côr yr Ysgol

Bu côr yr ysgol yn diddanu trigolion lleol Bethesda wrth ganu carolau o amgylch y pentref gan gynnwys Llys Dafydd a Phlas Ogwen ar y dydd Gwener cyn y Nadolig. Diolch i bawb a ddaeth i wrando ac am eich cefnogaeth i weithgareddau'r bobl ifanc.

Bu côr yr ysgol hefyd yn cymryd rhan yn y gwasanaeth carolau yng Nghapel Jerusalem ar y nos Sul cyn y Nadolig. Cafwyd gwasanaeth arbennig gyda’r côr yn cyfrannu dwy gân, 'O Dduw Bendithia' a 'Llewyrch ei Seren', i'r dathliadau.

Llongyfarchiadau iddynt a phob hwyl i'r côr yn y flwyddyn newydd wrth iddynt baratoi tuag at Eisteddfod yr Urdd ac ymweliad â Disneyland i berfformio ym mhenwythnos Gŵyl Ddewi ym Mharis.

Ysgol Llandygái

Diddori’r Trigolion

Aeth disgyblion Dosbarth Awel gyda Mr Morris i Neuadd Talgai i ganu carolau a chaneuon Nadoligaidd i drigolion y pentref. Mae profiadau o’r fath yn werthfawr i’r plant ac roeddent i gyd wedi mwynhau perfformio. Diolch am y gwahoddiad.

Gwasanaeth yn Eglwys Tegai

Aeth y disgyblion, staff, Y Parch John Mathews a rhai o aelodau yr Eglwys a’r Llywodraethwyr i Eglwys Tegai ar brynhawn Iau olaf y tymor i ganu carolau traddodiadol ac i wrando ar ddarlenniadau o’r Beibl. Braf oedd cael ennyd i gofio am wir ystyr y Nadolig.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i’r disgyblion a dderbyniodd dystysgrif am eu presenoldeb i’r ysgol y tymor diwethaf. Roedd y disgyblion wedi mynychu’r ysgol bob diwrnod o’r tymor – plant iach a hapus mae’n rhaid!!

Eco-sgolion

Mae pwyllgor Eco-Sgolion wedi ail-gychwyn a hoffem groesawu ein haelodau newydd, sef - Cai Smith (B1.3) a Madison McKeown (B1.3). Mae'r pwyllgor wedi llwyddo i ennill y wobr Efydd am eu gwaith fel rhan o gynllun Ysgolion Gwyrdd. Da iawn nhw. Hefyd, cawsom ymweliad gan Esyllt Davies i ddyfarnu gwobr y Faner Werdd. Roedd holl waith y pwyllgor yn brawf o'u llwyddiant ac roeddent yn llwyddiannus yn eu cais. Dymuna Miss Jones estyn diolch mawr iddyn nhw a

holl blant yr ysgol sydd wedi cyfrannu at y portffolio ac am eu gwaith caled.

Maent nawr am geisio gweithio tuag at y wobr Arian a'r ail-Faner werdd.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Bwyllgar Eco-Ysgolion sydd wedi sicrhau Y Faner Werdd
Maent wedi bod yn weithgar o dan arweiniad Miss Emma Jones ac mae pawb yn hynod falch o’u llwyddiant. Ymlaen am y nesaf rwan!

Diolch

Pob dymuniad da i Mr Lieam Williams sydd wedi ein gadael ar ôl cyfnod o weithio fel cymhorthydd yn yr ysgol a diolch iddo am ei ffyddlondeb a’i waith caled. Pob dymuniad da hefyd i Miss Hannah Williams – myfyrwrig o’r Brifysgol – fu’n gweithio gyda Dosbarth Gwawr dros y tymor diwethaf a phob dymuiad da iddi i’r dyfodol.

Casglu Arian

Gwisgodd staff a disgyblion yr ysgol siwmperi Nadoligaidd yn ddiweddar er mwyn codi arian at Elusen Achub y Plant – diolch i bawb gefnogodd y fenter – casglwyd swm o £100.

Ysgol Abercaseg

‘Hei Hogia Bach’

Bu cyffro mawr yn neuadd yr ysgol yn ddiweddar wrth i Dyfrig a Catrin o Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd berfformio’r sioe ‘Hei Hogia Bach’. Bu’r perfformiad yn gyfrwng i atgoffa’r plant o bethau pwysig bywyd mewn modd hwyliog a chafwyd llond bol o chwerthin .Fel arwydd o’u gwerthfawrogiad,canodd y plant un o’u hoff garolau ar ddiwedd y perfformiad er mawr fwynhad i’r actorion.

Gwasanaeth Cristingl



Derbyniodd disgyblion dosbarthiadau Ffrancon, Tryfan, Ogwen a Ffrydlas wahoddiad i gymryd rhan mewn gwasanaeth Cristingl yn Eglwys Glan Ogwen. Cafwyd croeso gwresog gan y Parchedig John Mathews a’r Curad Ms Jenny Hood a mwynhaodd y plant gyfansoddi gweddiau o ddiolch yn eu cwmni. Uchafbwynt yr ymweliad i’r plantos wrth gwrs oedd cael gwneud Cristingl unigol i fynd adref gyda hwy a mawr yw ein diolch i ferched yr eglwys am eu gwaith paratoi a’u cymorth.

Cystadleuaeth ‘Llun Nadolig’ Tesco

I’r rhai hynny ohonoch a wnaeth eich siopa Nadolig yn Tesco Bethesda, mae’n debyg i chi weld lluniau Nadoligaidd gan blant Ysgol Abercaseg wedi eu harddangos yn y siop. Bu i ddisgyblion yr ysgol ddod i’r brig yn yr holl gategorïau mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan Tesco, ac fel cydnabyddiaeth o’u llwyddiant, bu i’r buddugwyr dderbyn gwobrau hael gan y cwmni. Llongyfarchiadau mawr i chwi i gyd.
Canu Carolau ym Mhlas Ogwen
Un o ddefodau blynyddol yr ysgol yw i ddisgyblion blwyddyn 2 ymweld â Phlas Ogwen i ddiddanu’r preswylwyr drwy ganu carolau.Yn wahanol i’r arfer y flwyddyn yma, bu i’r plant berfformio ar y cyd gyda disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen. Mwynhaodd pawb y profiad o ganu yn fawr iawn a diolch i staff a phreswylwyr Plas Ogwen am y croeso cynnes.

Cyngerdd Nadolig

Roedd ffrwyth llafur holl ddisgyblion yr ysgol, o’r ieuegaf i’r hynaf, yn cael ei arddangos ar lwyfan Ysgol Dyffryn Ogwen ,i neuadd a oedd dan ei sang, pan fu’r plant yn perfformio’r sioe Nadolig ‘Anest yr Angel’.

Yn ôl y gymeradwyaeth a gafwyd ar ddiwedd y perfformiad roedd y gynulleidfa wedi mwynhau’n arw gydag ambell un yn dweud na allent ddisgwyl am sioe Nadolig 2013! Hoffem ddiolch i Brifathro a staff Ysgol Dyffryn Ogwen am y croeso a’r gefnogaeth a gawsom yn ystod yr ymarfer ac ar noson y perfformiad. ‘Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i’r rhieni am ddarparu gwisgoedd bendigedig, i ‘Gyfeillion Ysgol Abercaseg’ am drefnu’r raffl ac i ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen am ddarparu lluniaeth i’r gynulleidfa.

Trip Siôn Corn



Treuliodd plant blynyddoedd derbyn, 1 a 2 fore bendigedig yn teithio ar y trên bach ar gyrion Llyn Padarn i ymweld a gŵr arbennig iawn! Roedd hi’n fore sych ond rhewllyd o oer ac erbyn i ni gyrraedd pen y daith roedd hi hyd yn oed yn bwrw eira (diolch i beiriant arbennig!!) Roedd y plant,wrth reswm, wedi gwirioni ac wrth eu boddau’n chwarae yn yr ‘eira’ cyn symud ymlaen i dderbyn anrheg gan Siôn Corn a’i atgoffa o’r hyn yr oeddynt yn gobeithio a fyddai yn eu sachau fore Nadolig!!

Bore Coffi

Bydd croeso cynnes i bawb i fore coffi ‘Cyfeillion yr Ysgol’ yn Neuadd Ogwen am 10 y bore ar 26ain Ionawr. Dewch yn llu am sgwrs a phaned yn ogystal a manteisio ar y cyfle i ennill un o’r gwobrau gwych yn ein ‘Raffl Fawr’.

Clwb cinio a phrynhawn Ysgol Abercaseg

Mae plant y clwb wedi bod yn cadw’n brysur iawn dros yr wythnosau diwethaf yn creu addurniadau a melysion Nadolig, yn dysgu am draddodiadau Nadoligaidd gwledydd eraill ac yn creu dyn eira enfawr o ddeunydd gwastraff. Bydd hyn yn ymarfer da iddynt os y bydd inni gael eira ‘go iawn’!! I orffen y tymor mewn steil cafwyd parti gyda digon o ddawnsio, bwyta a llawer o hwyl.

Ysgol Genedlaethol Llanllechid 1938

Y Rhes Uchaf (O’r Chwith): Gertrude Roberts, Dilys Davies, Selina Jones, Gwilym Thomas, Glenys Hughes, Lliwen Roberts, Gwen Jones, Blodwen Roberts, Pat Griffiths, Elsie Hughes.
Canol: Myrfin Owen
Rhes Isaf (O’r Chwith): Shirley Owen, Doreen Thomas, Gwilym Jones, Gwilym Rees Hughes, Ronald Davies, Llew Davies, Leslie Thomas a Marjory Beech.
Arweinydd: Gareth Lloyd

Ysgol Bodfeurig

Ffair Nadolig

Cynhaliwyd Ffair Nadolig llwyddianus iawn yn yr ysgol yn ddiweddar. Roedd llawer o stondinau yn gwerthu nwyddau wedi eu gwneud gan ddisgyblion yr ysgol a gan rieni a chyfeillion yr ysgol. Llwyddwyd i gasglu £570 tuag at offer chwarae i'r ysgol.

Gymnasteg



Llongyfarchiadau i dîm gymnasteg yr ysgol am gynrychioli'r ysgol yn wych mewn cystadleuaeth ar gyfer ysgolion Gwynedd. Aeth 10 o ddisgyblion yr ysgol i Ganolfan Tennis Caernarfon ar gyfer y gystadleuaeth a chafwyd diwrnod bendigedig yn cystadlu a chefnogi eraill. Da iawn chi!

Cyngerdd Nadolig

Cafwyd cyngerdd Nadolig llwyddiannus iawn cyn y Nadolig - enw'r sioe oedd 'Hud y Nadolig'. Diolch yn fawr i rieni a ffrindiau'r ysgol ac i lawer o aelodau o'r gymuned ddaeth i'r Neuadd Goffa i'n cefnogi. Hoffai staff yr ysgol ddiolch i'r plant i gyd am eu gwaith caled!

Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth staff a disgyblion Ysgol Bodfeurig i ddarllenwyr y Llais!

Ysgol Rhiwlas

Capel y Ffynnon

Aeth adran y Babanod i Gapel y Ffynnon ym Mangor am y prynhawn. Cawsant gymeryd rhan mewn drama stori'r geni, addurno bisged, creu bag ar gyfer eu bisgedi a gwneud gwaith ar stori'r geni. Diolch o galon i bawb yng Nghapel y Ffynnon am y croeso cynnes a'r holl waith caled.

Archaeoleg

Daeth Rhys Mwyn at yr adran Iau fel rhan o'u gwaith ar y Celtiaid. Treuliodd fore yn dangos a thrafod artiffactau ac offer y mae archaeolegwyr yn ddefnyddio. Gobeithiwn ymweld â Thre'r Ceiri yn y flwyddyn newydd.

Cyngherddau Nadolig



Diolch i'r plant am eu gwaith caled yn ymarfer a pherfformio'r cyngherddau Nadolig. Bu adran y Babanod wrth eu bodd yn perfformio Stori'r Geni tra bu'r plant mawr yn diddori eu cynulleidfa hefo stori Eira Wen a'r Saith Corach.



Braf oedd cael y cyfle i wylio Peter Pan yn Llandudno a chael bod yn rhan o gynulleidfa ar ôl treulio cymaint o amser ar y llwyfan!

Awdur

Daeth Richard Welton i'r ysgol i drafod ei waith ac i ddangos ffilm fer. Cawsom glywed am wneuthuriaid llyfr a phrofiadau'r awdur. Diolch yn fawr!

Ffarwel

Diolch yn fawr i Mrs Susan Williams am ei chyfraniad di-flino i Ysgol Rhiwlas. Byddwn ar ein colled hebddoch Mrs Williams ond rydym yn ffyddiog y byddwch yn galw i fewn am banad pan yn y cyffiniau! Pob hwyl ar gyfer y dyfodol.

Cristingl



Diolch i Jenny o Eglwys Sant Cedol am ei hamser eto eleni yn creu Cristingl a chynnal gwasanaeth hyfryd yn yr ysgol. Cawsom berfformiad cerddorol gan Megan W, Holly, Cai, Ffion, Ben, Cassie a Seren i ddechrau'r gwasanaeth cristingl a chafodd pawb gristingl i fynd adref. Dymuna plant a staff Ysgol Rhiwlas Flwyddyn Newydd Dda i chi gyd!

Ysgol Tregarth

Croeso

Croeso cynnes i Mrs Fflur Roberts a Miss Debbie Jones i staff yr ysgol. Mae Miss Debbie Jones yn ymuno a'r tim fel athrawes CPA newydd yr ysgol a Mrs Fflur Roberts yn dod atom i ddysgu Blwyddyn 5 a 6 dros gyfnod mamolaeth Mrs Cerys Roberts. Rydym yn siwr y bydd y ddwy yn hapus iawn yma. Pob hwyl i Mrs Cerys Roberts ar ei chyfnod mamolaeth. Diolch yn fawr iawn i Miss Ceri Davies am gyflenwi mewn dosbarthiadau amrywiol dros yr wythnosau diwethaf. Mi fydd y plant yn gweld ei cholli.

Ffarwelio

Bu ‘n rhaid ffarwelio a dwy arall ar ddiwedd y tymor. Mae Nerea wedi dychwelyd yn ol i Wlad y Basg ar ol cyfnod o saith wythnos o arsylwi mewn dosbarthiadau amrywiol yn yr ysgol. Bu’n hynod braf rhannu ei chwmni a dysgu am draddodiadau ei gwlad. Dymuniadau gorau hefyd i Miss Siwan Williams ar ol cyfnod o gyflenwi yn yr ysgol.

Cydymdeimlo

Dymuna holl staff a chyfeillion yr ysgol anfon ein cofion a’n cydymdeimlad at Anti Glynys ac Yncl Derek ar eu profedigaeth yn diweddar.

Cyngerdd Nadolig



Cafwyd gwledd o gân wrth i blant yr ysgol berfformio ein sioe Nadolig ‘Dyn y Lleud’ yng Nghapel Shiloh . Ymunodd plant yr Ysgol Feithrin â’r ysgol yn y perfformiad prynhawn i ganu ‘Clychau Santa’ am y tro cyntaf eleni. Mawr obeithiwn y bydd y trefniant yn parhau i’r dyfodol. Roedd y capel dan ei sang yn ystod y ddau berfformiad a phawb wedi mwynhau y plant wrth eu gwaith. Diolch o galon i Jones a Whitehead am eu cefnogaeth yn cludo a gosod y llwyfan, i Eurwen Williams a swyddogion y capel ,ac i Guto Wyn, Ysgol Dyffryn Ogwen, am ei arweiniad wrth i’r ysgol ddefnyddio y system PA dalgylch newydd. Diolch i holl staff a rhieni am baratoi y gwisgoedd a hyfforddi’r disgyblion, ond yn bennaf oll i’r plant am berfformiadau ardderchog.

Parti Nadolig



Roedd cyffro mawr yn yr ysgol yn ystod dau barti Nadolig y plant. Daeth Siôn Corn i ymweld â’r plantos a bwytdodd pawb lond eu boliau. Diolch i Mrs Jones ac Anti Ffiona am eu holl baratoadau ychwanegol.

Dymuna ‘r Ysgol longyfarch holl staff Ysgol Dyffryn Ogwen ar ganlyniad arolwg ardderchog.

Ymweliad Capel y Ffynnon

Yn ddiweddar aeth dosbarth Tryfan ar ymweliad i gapel y Ffynnon i ddysgu am wir ystyr y Nadolig. Cawsant y cyfle i ail greu stori’r geni drwy wisgo i fyny a pherfformio, addurno bisgedi a lliwio bagiau bach. Diolch yn fawr iawn i Steffan Job am drefnu’r gweithgaredd. Roedd y plant wedi mwynhau!

Ysgol Pen-y-bryn

Ymweliad Blwyddyn 3 ag Amgueddfa Lechi Llanberis.



Cafodd dosbarth Tryfan fore hyfryd a diddorol iawn yng nghwmni Mair Tomos Ifans a Shirley Owen yn yr amgueddfa. Tra ‘r oedd un grwp yn cael eistedd o flaen tanllwyth o dân cynnes yn gwrando ar draddodiadau’r Nadolig a gwrando ar hen ganeuon y Nadolig, roedd y gweddill wrthi’n brysur yn creu addurn Nadolig bendigedig. Uchafbwynt y bore i rai oedd cael blasu cyfleth , a hwnnw’n felys iawn!

Diolch i staff yr Amgueddfa am eu croeso cynnes fel arfer. Rydym yn edrych ymlaen yn arw at y diwrnod golchi fis nesaf.

‘Ceidwad y Byd’



Cafwyd cyfle arbennig iawn y flwyddyn yma i gyflwyno stori’r Nadolig drwy ddull sioe gerdd oedd yn ein harwain i wahanol wledydd a oedd eisiau anfon anrheg i’r baban Iesu. Bu pawb yn brysur iawn yn dysgu caneuon, deialog a dawnsfeydd ac yn rhoi sglein arbennig ar bobeth.



Croesawyd Blwyddyn 2 Ysgol Abercaseg i weld ymarfer llawn o’r sioe cyn ei throsglwyddo i Ysgol Dyffryn Ogwen am un noson yn unig!. Diolch i bawb fu’n cefnogi mewn unrhyw ffordd a diolch arbennig i Ysgol Dyffryn Ogwen am eu croeso fel arfer.

Eglwys Glan Ogwen

Cafodd yr ysgol gyfan groeso arbennig gan y ciwrat Jenny Wood i brofi gwasanaeth a stori’r Cristingl. Diolch i’r aelodau am ddod i helpu er mwyn i bob un plentyn gael gwneud ‘Oren ‘ y Cristingl.

Ysgol Llanllechid

Cyngherddau Nadolig

Cafwyd tri cyngerdd Nadolig gwych gan blant yr ysgol eto eleni. Roedd y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn wedi dysgu llu o ganeuon a sgriptiau wrth berfformio sioe am lythyr Siôn Corn. Roedd y plant yn werth i'w gweld mewn gwisgoedd bendigedig, - llwyfan lliwgar dros ben! 'Taith Madam Chips o Rachub i Wlad y Rwla' oedd sioe Blynnyddoedd 1 a 2, ac roedd y perfformiad yma'n werth chweil hefyd, yn llawn canu a dawnsio a hwyl a sbri, gyda dros saith deg o blant!



Plant dosbarth Mrs Marian Jones a Mrs Parry Owen yn mwynhau perfformio

Aeth yr Adran Iau i Ysgol Dyffryn Ogwen i berfformio eu sioe Culhwch ac Olwen, - ac am sioe oedd honno! Roedd y neuadd fawr yn orlawn, a phawb yn mwynhau'r holl fwrlwm. Roedd pob un ar ei orau a safon y canu yn codi'r to! Diolch i bawb a fu'n gysylltiedig a'r sioe hon mewn unrhyw ffordd a diolch arbennig i'r rhieni am ofalu am yr holl wisgoedd i'r holl sioeau.

Tren Siôn Corn

Cafodd plant y Dosbarth Derbyn daith hapus i Lanberis, er mwyn mynd ar y tren o amgylch y llyn i weld Siôn Corn. Roedd pawb yn hapus iawn, - pob plentyn yn dychwelyd gydag anrheg gwerth chweil!

Croeso'n ôl!

Mae'n bleser cael gweld dau wyneb cyfarwydd yn ôl yn ein plith, ar ôl cyfnod digon anodd. Mae Mrs MacDonald wedi dychwelyd i'r gegin a Leon yn dod i'n gweld yn achlysurol er mwyn cael chwarae gyda'i ffrindiau. Braf gweld y ddau ohonoch!

Bore Coffi

Cafwyd Bore Coffi hwyliog iawn yn y Clwb Criced yn ddiweddar. Trefnwyd y cyfan gan Gymdeithas Rieni yr ysgol, dan arweiniad Mrs Iona Robertson a Mrs Lowri Roberts. Roedd digon o stondinau yno a phawb yn mwynhau'r awyrgylch Nadoligaidd yn enwedig pan ymddangosodd Siôn Corn ei hun ac roedd o'n Andros o Siôn Corn clen! Roedd yr elw y tro hwn yn mynd tuag at apêl Leon Williams, Maes Bledlyn.

Addurniadau Nadolig

Diolch yn fawr i Mrs Caroline Jones [mam Reece] am ddod i'r ysgol i ddysgu plant Blwyddyn 6 sut i wneud addurniadau bwrdd bendigedig ar gyfer y Nadolig. Roedd y torchau hardd ar werth wedyn yn y Bore Coffi. Diolch yn fawr hefyd i Ms M Bibby am ddod at flwyddyn 2 i wneud addurniadau Nadolig, ac yn wir, am ddod i wrando ar blant yn darllen Saesneg yn gyson ar hyd y flwyddyn. Diolch i chi am eich cymorth parod ar hyd y flwyddyn.

Y BWTHYN TE

pen y ceunant isaf

LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR
WAELODION LLWYBR YR WYDDFA
(O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 18^{ed}. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG
YMA, YN OGYSTAL A
GOLYGFYDD GWYCH DROS
LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am. - 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIDDYDDO GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydau o gwtwl!)

MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL

Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606

www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

Gwasanaeth a Chringl Jenny'r Ciwrad



Cawsom wasanaeth boreol diddorol gan y Ciwrad Jenny o Eglwys Glan Ogwen, yn esbonio arwyddocad y Crisingl i'r disgyblion. Yna cafodd dosbarth Blwyddyn 3 gyfle i wneud oren Crisingl yng nghwmni Jenny.

Partion Nadolig/Cinio Nadolig

Cafwyd partion Nadolig gwych eto eleni; rhai yn yr ysgol a rhai ym Mhlas Ffrancon, - a Siôn Corn yn cyrraedd gyda llond sach o anrhegion pob tro. Roedd y cinio Nadolig eto y Nadolig hwn yn flasus iawn. Diolch i Mrs MacDonald â'i staff. Diolch i bawb fu'n ymwneud â'r partion i gyd!

Byd Llan

Cyhoeddwyd rhifyn hwyliog o bapur newydd yr ysgol, sef 'Byd y Llan' ar ddiwedd y tymor. Ynddo cawn wybod am yr holl brofiadau difyr a gwerthfawr mae disgyblion yr ysgol wedi'u cael yn ystod y tymor. Mae'n bapur gwerth chweil, - a diolch i'r holl ddisgyblion sy'n aelodau o'r clwb newyddiadura am y campwaith.

Clwb yr Henoed

Unwaith eto, braf oedd cael croesawu aelodau o Glwb yr Henoed atom am ychydig o adloniant a thamaid i'w fwyta. Cawsant gyflwyniadau bendigedig gan y plant, ac roedd pawb wrth eu boddau. llun

Warws Werdd

Cafodd dosbarth Blwyddyn 4 gyfle i ymweld â safle ail gylchu Warws Werdd yng Nghibyn, Caernarfon yn ddiweddar. Roedd y disgyblion yn brysur iawn wrth ddiolli amrywiaeth o ddillad lliwgar gyda'r gweithwyr. Mae'r ysgol yn cydweithio gyda'r Warws Werdd er mwyn hyrwyddo'r ymgyrch ail gylchu dillad.

Y LLANGOLLEN

BETHESDA

(01248 600491)

EGIN AR AGOR DYDD
MAWRTH I DDYDD SUL 12-2
NOS FAWRTH I NOS SADWRN
5-8.30
(COGYDDDES NEWYDD YN
Y GEGIN)
CINIO DYDD SUL AR GAEL
POB DYDD SUL 12yh -2yh
DEWIS O GIG A THATWS A
LLYSIAU FFRES



NOSON
"JAMIO"
POB NOS
FERCHER



CERDDORIAETH FYW
FFONIWCH, GWYLIWCH
AM BOSTERI NEU
YMWUNWCH Â'N
TUDALEN GWYNEBLYFR
AM FANYLION



OS YDYCH YN HOFFI EIN BWYD DYWEDWCH WRTH ERAILL
OS NAD YDYCH, DYWEDWCH WRTHYM NI.

EIRA MAWR A THYWYDD CALED 1947

Margaret Roberts, Glan Llugwy, o ‘Oes o Fyw ar y Mynydd’ a gyhoeddwyd yn 1979.

BU’N haf gwlyb i bobl y topiau. Ni bu diwrnod sych trwy fis Awst a’r rhan fwyaf o Fedi ac yr oedd y mymryn gwair a gawsom yn union fel petasem yn ei ddwyn. Yr oedd yn ddechrau gaeaf gwlyb wedyn ac yn ystod y blynyddoedd hynny yr oedd yn orfodol trochi’r defaid ddwywaith o fewn pedwar diwrnod ar ddeg i’w gilydd, ac i waethygu pethau yr oedd y clafr wedi torri allan tua’r llechwedd isaf o Ddyffryn Conwy a bu rhaid trochi eilwaith ar ôl y Nadolig. Rhwng y trochi trwywydd a’r gwlybanaeth mawr yr oedd y defaid druain erbyn dechrau Ionawr yn lliprynnod cyn i’r tywydd mawr ddechrau. Yr wythnos olaf o Ionawr trodd y gwynt i’r dwyrain, dechreuodd sychu, a daeth â sychdwr oer a rhewynt caled i’w ganlyn. Ychydig iawn o eira ddaeth yr wythnos gyntaf ond rhewai yn ddiidrugaredd: “gwneud gwely iawn i gnwd mawr” fel y dywedai’r hen bobl.

Yr ail wythnos dechreuodd yr eira a’r rhewi ofnadwy. Nid oedd modd sefyll y fath oerni. Popeth yn rhewi i mewn ac allan ac eira yn dod pob dydd erbyn hyn ac yn cael ei chwyrlïo i bobman. Y defaid druain yn wlyb at eu crwyn ar ôl y trochi, y glaw yn rhewi a’u hanadl hyd yn oed yn rhewi fel pensel o’u ffroenau i lawr i’r ddaear. Gwelsom lawer wedi rhewi ar eu traed. Yr oedd pob ffos yn gloedig. Dim dŵr i ddim. Byddai Edward yn torri rhew yn yr afon â gordd fawr a byddai’r defaid druain yn heidio yno ac yn brefu’n dorcalonnus am ddŵr wrth glywed ei oglau. Y dwylo yn rhewi wrth drin yr ordd ac nid gwiw gafael mewn gât haearn heb fenyg am y dwylo neu byddent yn rhewi ar unwaith yn rhwym wrth haearn y gât.

Wythnosau yn mynd heibio heb arwydd iddi lacio dim. Disgwyl arwyddion troi gyda phob lleuad newydd, ond cadarn fyddai golwg yr awyr bob nos, y sêr siriol yn wincio mewn awyr las glir fel môr ar ddiwrnod braf a’r rhewynt yn chwipio heibio i’n clustiau. Yr oedd yma garcharor rhyfel Almaenig yn cymryd gofal o’r gwartheg yn gampus. Malai wellt yn gyson bob dydd a mangls yn gymysg, ac ni chât yr un blewyn o wair ei roi iddynt, yr oedd rhaid ei gadw i’r defaid. Ond yr oedd y gwair o ansawdd sâl ar ôl cynhaeaf sâl. Ni wnâi ddim lles ond llenwi cyllau oerion ac wrth ei fod mor ddi-werth nid oedd yn cynhesu anifail ychwaith. Yr oedd golwg ddifrifol ar ddiadell fawr erbyn diwedd Chwefror. Darfyddai’r gwair sâl a rhaid oedd chwilio am wair pryn. Hwnnw yn dod ac nid oedd dim i’w wneud ond ei adael allan yn das. Dau geffyl o flaen car llusg

i’w gario adra a’r rheini at eu boliau mewn lluwchfeydd. Mis Mawrth yn dod eto a dim arwydd newid. Llawer lluwch eira yn claddu pob man ac yn rhewi ddydd a nos. Y dŵr i’r ty wedi rhewi’n anobeithiol. Cario rhyw ddwy siwrnai yn y dydd o’r pistyll. Erbyn mynd i nôl yr ail siwrnai byddai wedi ei gladdu o’r golwg. Am ddyddiau lawer bu rhaid gwneud hynny.

Rhaid i ffermydd mynydd ofalu bod digon o danwydd, digon o fwyd yn y tŷ a digon o fwyd anifeiliaid am bedwar mis beth bynnag cyn dechrau’r flwyddyn. Os bydd yn glir tan ddechrau’r flwyddyn mae gobaith iddi ddal nes daw haul Ebrill. Ond yn y flwyddyn 1947 roedd popeth yn darfod a’r ceffylau ufudd wnaeth y gwaith trwy anawsterau difrifol. Criw o ddefaid bach yn sâl ac wedi eu mendio’n reit dda a’u rhoi mewn beudy cynnes debygem. Erbyn y bore lluwch fnadwy trwy’r nos wedi chwythu trwy bob twll, wedi llenwi’r beudy i’r to ac wedi claddu’r defaid. Un yn fyw ac yn yfed llymaid cynnes o’r sosban.

Ar ddiwedd Mawrth dyma’r gwynt yn troi wedi bod yn y dwyrain am dri mis ac wedi rhewi am dri mis. Troi yn sydyn i’r de-orllewin a dyma arllwys y glaw gan fodd mwy o ddefaid nag a laddodd yr eira, a’r rhai oedd yn fyw yn rhy wan i symud. Amser wyn yn dod ond dim un oen bach yn byw. Y mamogiaid yn rhy wan i gynnal eu hunain heb sôn am yr ŵyn a pheth ofnadwy ohonynt yn erthylu. Dim modd magu ŵyn. Cawsom ryw ychydig o ffwrdd. Rhyw gant oedd efo’r rheini. Pan ddaeth y glaw a’r ffosydd yn dechrau rhedeg yr oedd y defaid druain ar eu gliniau ar lannau’r ffosydd a’u cyrff yn hollti wrth yfed dŵr wedi bod gymaint ar wair sych a dim digon o ddŵr.

Mae’n anodd cofio rhywsut i neb ddod trwy’r gaeaf hwnnw yn fyw. Yn rhyfedd iawn yr oeddem yn iach fel cnau ac yn llwybreiddio dros yr eia caled i bob man. Nid oedd na chapel nac ysgol yn agored. Ond fe gollwyd cannoedd o ddefaid. Nid oedd ond rhyw gant o ŵyn wedi dod o ffwrdd i’w cadw efo’r moga pori, ac er i’r Llywodraeth sefydlu Cronfa Trychineb yr oedd yn annigonol iawn i ddigolledu’r ffarmwr mynydd.

Bydd ofn yn ein fferru wrth feddwl am wynebu gaeaf caled fel un 1947. Gwnaeth un tebyg eto yn 1963 ond ni chawsom golled fel yn 1947. Yr oedd y defaid mewn gwell cyflwr ddechrau’r gaeaf ac yr oedd gwair gwell iddynt.

Boreau Coffi yn codi £15,000

Bu 2012 yn flwyddyn ardderchog arall i drefnwyr Boreau Coffi yn Neuadd Ogwen.

Amcangyfrifir bod oddeutu £15,000 wedi ei godi at achosion o bob math yn ystod y flwyddyn.

Mae’r gefnogaeth i’r Boreau Coffi yn wych, gydag amryw yn mynychu pob bore Sadwrn. Yn wir, mae’r boreau wedi datblygu i fod yn achlysuron cymdeithasol, gyda phobl yn mwynhau sgwrs dros banad, a thynnu coes, tra’n cefnogi’r gwahanol elusennau.

Maent wedi mynd mor boblogaidd nes ei bod yn anodd i fudiad gael dyddiad i logi’r neuadd gan fod cymaint o alw. Yn anffodus, bydd raid i fudiadau wneud trefniadau eraill ar ôl mis Ebrill, oherwydd y gwelliannau arfaethedig i Neuadd Ogwen.

Y gobaith yw y bydd y Neuadd yn ail agor ar ei newydd wedd at ddiwedd y flwyddyn, pan all y mudiadau ail gychwyn eu boreau coffi llewyrchus yno.



Cymdeithas Cŵn Tywys Gwynedd oedd yr elusen olaf i gynnal bore coffi yn y neuadd yn 2012, a dyma lun o ddau o’r cŵn y bore hwnnw, sef ‘India’ (chwith) gyda John Gwyn Williams, Ysgrifennydd y Gymdeithas, ac ‘Elliott’, gyda John Ellis o Rhos Isaf, sydd yn ddefnyddiwr cŵn tywys ers 22 mlynedd.

